



Llywodraeth Cymru  
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Gwaharddiad ar Werthu Cŵn a Chathod Bach drwy  
Drydydd Parti

5 Hydref 2020

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.  
This document is also available in English.

## Yr Ymarfer Ymgynghori

### Gwybodaeth Gefndir

Ar hyn o bryd, gall cŵn a chathod bach gael eu prynu'n uniongyrchol gan fridiwr (trwyddedig neu un heb drwydded yn dibynnu ar nifer y geist bridio ar y safle), drwy werthwr trydydd parti, neu o ganolfan achub/ailgartrefu. Nid oes cofnodion cenedlaethol o nifer y cŵn a chathod bach a werthir drwy drydydd partiön.

Gwerthwyr trydydd parti masnachol yw'r rhai sy'n weithwyr anifeiliaid anwes trwyddedig: yng Nghymru bydd ganddynt drwydded o dan Ddeddf Anifeiliaid Anwes 1951.

Gall gwerthiant masnachol drwy drydydd parti fod yn gysylltiedig ag amodau lles gwaeth ar gyfer yr anifail o gymharu â phrynu'n uniongyrchol gan y bridiwr. Er enghraifft, gall cyflwyno i sawl amgylchedd anghyfarwydd a'r tebygolrwydd o sawl taith gyfrannu at fwy o berygl o glefyd a diffyg cymdeithasoli ac ymgyswddo

Mae sawl ffordd y gall rhywun brynu ci bach neu gath fach o ffynhonnell gyfreithiol;

1. Gan fridiwr trwyddedig (y rhai sydd â thair gast fridio o leiaf)
2. Gan fridiwr didrwydded (y rhai â llai na thair gast fridio neu'r rhai sy'n bridio cathod)
3. Gan werthwr trydydd parti (rhywun sydd heb fridio'r ci neu'r gath fach ei hun)
4. Gan ganolfan achub/ailgartrefu

Yr atyniad emosiynol i brynu ci neu gath fach yw'r prif reswm pam mae pobl yn ildio i brynu anifail gan rywun y maent yn gwybod na ddylent brynu ganddo weithiau. Mae'n debyg mai eu prif reswm dros wneud hynny yw lles yr anifail ac mae'r rhai sy'n gwerthu'r anifail yn chwarae ar y dynfa emosiynol hon.

Mae sicrhau'r safonau lles gorau posibl ar draws y diwydiant cyfan yn hanfodol i Lywodraeth Cymru. Agwedd bwysig ar y ddeddfwriaeth newydd arfaethedig yw hyrwyddo magu cyfrifol a sicrhau bod cŵn a chathod bach yn cael eu magu mewn amodau addas. Mae cyfoethogi bywydau a chymdeithasoli'r anifeiliaid hyn yn chwarae rhan hollbwysig wrth sicrhau bod gan anifail anwes gymeriad cytbwys. Mae mwyafrif y bridwyr trwyddedig yn cydnabod pwysigrwydd yr amodau sydd angen iddynt gydymffurfio â hwy ac yn ceisio bodloni'r amodau hynny ac, os oes modd, rhagori arnynt gyda buddsoddiad ychwanegol.

Bydd y cynigion sy'n cael eu hystyried yn golygu newid trefniadau trwyddedu ar gyfer gwerthu anifeiliaid anwes, gan gynnwys cŵn a chathod bach, a bydd hefyd yn arwain at wahardd gwerthu cŵn a chathod bach o dan 6 mis oed. Ni all y gwaharddiad arfaethedig ar werthiannau trydydd parti ynddo'i hun fynd i'r afael â'r holl broblemau sy'n gysylltiedig â masnachu cŵn bach. Byddai'r gwaharddiad arfaethedig yn un rhan o gorff o waith sy'n gysylltiedig â gwella safonau lles sefydliadau bridio cŵn a mynd i'r afael â rhwystrau gorfodi.

Mae bridio cathod a chŵn yn fusnes cyfreithlon a thra bod y rhan fwyaf o fridwyr yn sicrhau bod anghenion lles eu hanifeiliaid yn cael eu diwallu, nid yw rhai yn cyrraedd y safonau gofynnol. Os yw Llywodraeth Cymru am wneud gwahaniaeth yng Nghymru rydym am sicrhau nad oes unrhyw fylchau yn y ddeddfwriaeth y gall unigolion diegwyddor fanteisio arnynt felly mae'r ymatebion a gafwyd yn werthfawr iawn wrth lunio ein camau nesaf.

## **Ymgynghoriad Cyhoeddus**

Lansiwyd yr ymgynghoriad 8 wythnos ar Wahardd Gwerthu Cŵn a Chathod Bach gan Drydydd Parti ar 22 Mehefin 2020 a daeth i ben ar 17 Awst 2020. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru a chafodd gyhoeddusrwydd yn y cyfryngau cymdeithasol.

Roeddem hefyd yn awyddus i geisio barn plant a phobl ifanc yng Nghymru. Cynhaliodd Plant yng Nghymru ein Hymgyngghoriad Plant a Phobl Ifanc drwy eu gwefan a chawsom 59 o ymatebion. Gellir gweld yr adroddiad llawn yn Atodiad B.

Roedd y ddau ymgynghoriad yn edrych ar yr effeithiau cadarnhaol a negyddol y byddai gwaharddiad arfaethedig yn eu cael ar drydydd partiön sy'n gwerthu cŵn a chathod bach yn fasnachol.

### **Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ystyried 9 cwestiwn fel y'u rhestrir isod.

### **Ymatebion i'r Ymgynghoriad**

Cafwyd 226 ymateb i'r ymgynghoriad. Rhestrir y sefydliadau a ymatebodd yn Atodiad A.

## Cwestiwn 1:

### Ydych chi'n cytuno â'r gwaharddiad ar werthu cŵn a chathod bach yn fasnachol drwy drydydd parti?

Roedd 97% o'r ymatebwyr yn cytuno â gwaharddiad ar werthu cŵn a chathod bach yn fasnachol drwy drydydd parti. Mynegodd y rhan fwyaf o'r ymatebion bryderon ynghylch lles y cŵn a chathod bach sy'n cael eu bridio mewn amgylcheddau anaddas.

- “Prif gymhelliad gwerthu gan drydydd partion yw elw, nid lles anifeiliaid.” (Dienw)
- “Mae Cats Protection yn cefnogi gwaharddiad ar werthu cŵn a chathod bach yn fasnachol drwy drydydd parti yng Nghymru, ar yr amod bod bylchau mewn deddfwriaeth debyg yn Lloegr yn cael eu hadolygu a'u llenwi gan waharddiad a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru. Mae angen gorfodi effeithiol hefyd.”

Felly, gallai gwaharddiad ar werthu cathod bach yn fasnachol drwy drydydd parti helpu i fynd i'r afael â phryderon lles am gathod bach mewn amgylchedd siop anifeiliaid anwes neu werthwr:

- **Mae cymdeithasoli'n hanfodol er mwyn sicrhau y bydd cathod bach yn anifeiliaid anwes â natur gytbwys.** Bydd sicrhau bod cathod bach yn cael amrywiaeth o brofiadau cadarnhaol gan gynnwys y golygfeydd, y synau, yr arogleuon a'r gweadau cyffredin y maent yn debygol o ddod ar eu traws mewn cartref yn eu galluogi i ymdopi ag amgylchedd y cartref ac yn y tymor hir maent yn llawer llai tebygol o brofi lefelau uchel o straen neu ddatblygu problemau ymddygiad pan fyddant yn gathod llawn dwf. Yn aml, nid yw cathod bach mewn siopau anifeiliaid anwes neu sy'n cael eu cadw mewn amodau gwael gan werthwyr yn cael y math cywir gysylltiad â phobl, anifeiliaid eraill, synau ac ati yn ystod eu cyfnod cymdeithasoli hollbwysig sy'n golygu eu bod yn gwneud anifeiliaid anwes ofnus.
- **Mae cathod bach mewn mwy o berygl o ddal clefydau heintus na chathod llawn dwf.** Yn aml, nid yw mesurau rheoli clefydau ar eu gorau mewn siopau anifeiliaid anwes neu safleoedd gwerthwyr a gall toreidiau o gathod bach gael eu cymysgu sy'n cynyddu'r risg o glefydau heintus fel feirws herpes y cathod, calisfeirws y cathod a pharfofeirws y cathod yn gyffredin.
- **Gall nifer fwy o bobl anghyfarwydd drin y cathod bach a hynny heb reolaeth, a gall hyn achosi straen i'r cathod bach.**
- **Gall siopau a gwerthwyr anifeiliaid anwes annog bridio cathod yn anghyfrifol** gan fod rhai'n hysbysebu eu bod yn prynu cathod bach mewn siopau. Gall hyn annog pobl i fridio cathod bach er mwyn cyflenwi siopau a gwerthwyr anifeiliaid anwes a chael tâl.” (Cats Protection)
- “Mae'r dystiolaeth enfawr, a gasglwyd dros flynyddoedd lawer, yn cefnogi'r angen dybryd am waharddiad ar werthu gan drydydd parti yng Nghymru, tra bod dadleuon yn erbyn gwaharddiad yn ddi-sail. Nid oes angen ymchwil bellach, gan na fydd ond yn ategu'r angen am waharddiad ond yn gohirio gweithredu gwaharddiad o'r fath yn ddiangen, gan achosi niwed parhaus annerbyniol i les.” (CARIAD, Canine Action UK a Pup Aid)

Roedd RSPCA Cymru yn adlewyrchu'r sylwadau hyn mewn perthynas â phryderon lles:

- “Fel y nodwyd mewn ymatebion blaenorol, mae'r RSPCA o'r farn bod gan wahardd gwerthiannau trydydd parti, gyda mesurau gorfodi cadarn, y potensial i gynnig manteision i sicrhau safonau lles gwell ar gyfer cŵn a chathod bach sy'n cael eu bridio yng Nghymru. Mae unrhyw fesur sy'n symleiddio'r broses fridio/gwerthu/caffael anifail anwes, yn codi ymwybyddiaeth ac yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd ddeall a gweld yn well beth sy'n gyfreithlon neu'n anghyfreithlon, gan eu galluogi i wneud penderfyniadau ymwybodol sy'n fwy gwybodus. Mae hyn hefyd yn ategu'r broses reoleiddio a gorfodi wrth i ddefnyddwyr ddod yn fwy ymwybodol o'r ffordd gywir o brynu anifail anwes mewn modd sy'n diogelu lles yr anifail hwnnw'n well. Drwy ganiatáu i fridwyr trwyddedig werthu'n uniongyrchol i'r cyhoedd yn unig, bydd modd gwella tryloywder mewn safleoedd bridio a lleihau'r angen i gŵn a chathod bach wneud sawl taith. Fel yr amlygwyd yn ein hymateb i'r ymgynghoriad <sup>1</sup> ym mis Mai 2019 ar y mater hwn, mae nifer o faterion lles posibl yn gysylltiedig â gwerthu cŵn bach yn fasnachol drwy drydydd parti y gellir tybio y gallai'r gwaharddiad arfaethedig fynd i'r afael â nhw.” (RSPCA)

Codwyd safbwyntiau tebyg gan lawer o'n hymatebwyr:

- “Ydw, rwy'n cytuno â gwahardd cŵn a chathod bach gan fod pobl yn bridio ar gyfer enillion ariannol heb feddwl am y goblygiadau iechyd i'r cŵn/cathod bach gan nad ydynt yn gwirio iechyd y rhieni.” (Jacquelyn Jachontow)
- “Mae Battersea yn cefnogi gwaharddiad ar werthu cŵn a chathod bach yn fasnachol drwy drydydd parti. O'i orfodi'n briodol, gallai atal un llwybr allweddol i'r farchnad ar gyfer bridwyr lles isel, cyfaint uchel (ffermwyr cŵn bach yw'r enw cyffredin arnynt) sy'n rhoi elw o flaen lles yr anifail yn eu gofal. Nid ydynt am ddod â chwsmeriaid i'r fferm cŵn bach, gan eu bod yn gwybod y bydd llawer yn newid eu meddwl ar ôl gweld yr amodau ofnadwy y mae geist magu a'u cŵn bach yn cael eu cadw ydynt yn aml. Mae o fudd masnachol iddynt gadw'r safle bridio gwirioneddol o'r golwg - ac felly mae angen gwneud y gadwyn hon mor dryloyw â phosib er mwyn sicrhau lles; sy'n golygu dileu'r rhwydwaith hwn o werthwyr trydydd parti.” (Cartref Cŵn a Chathod Battersea)
- “Ydw, rwy'n cytuno â gwaharddiad i atal masnachwyr diegwyddor rhag ymddangos fel canolfannau achub sy'n gwerthu anifeiliaid sydd wedi'u ffermio'n ddwys (ffermio cŵn bach) er mwyn gwneud elw.” (Dienw)
- “Mae'r Kennel Club wedi galw am wahardd gwerthu cŵn bach drwy drydydd parti ers nifer o flynyddoedd ac mae'n cytuno'n gryf â'r egwyddor. Mae'n amhosibl sicrhau safonau lles priodol ar gyfer cŵn bach a werthir drwy drydydd parti. Mae'r fframwaith gwerthu trydydd parti cyfreithiol presennol yn hwyluso gwerthu cŵn bach sy'n cael eu bridio ar ffermydd cŵn bach y DU a masnach gyfreithlon ac anghyfreithlon cŵn bach a fewnforiwyd.

Felly, mae gwerthu cŵn bach sydd wedi'u cofrestru gyda'r Kennel Club drwy drydydd parti masnachol yn groes i reolau'r Kennel Club, ond nid oes gennym awdurdodaeth dros gŵn bach sydd heb eu cofrestru gyda'r Kennel Club (tua 60%). Am y rhesymau hyn, byddem yn croesawu'n fawr y gwaharddiad arfaethedig ar werthu cŵn bach drwy drydydd parti yng Nghymru.

---

<sup>1</sup> <http://www.politicalanimal.org.uk/wp-content/uploads/2020/01/Welsh-Government-Third-Party-Sales-Consultation-RSPCA-Response-May-2019-2.pdf>

Mae peryglu lles cŵn bach yn mynd law yn llaw â gwerthu cŵn bach drwy drydydd parti. Hyd yn oed os caiff ei wneud i'r safonau gorau posibl, mae'r llwybr gwerthu hwn yn achosi straen ychwanegol sylweddol i gŵn bach ar ddechrau eu hoes. Mewn trafodiad rhwng y bridwr yn uniongyrchol i'w berchennog oes newydd, gall y newid o'r amgylchedd lle cafodd y cŵn bach eu bridio, bod gyda'u torraid a'u mam, i'w 'cartref oes' newydd fod yn amser llawn straen i gŵn bach. Ni all cyflwyno newid ychwanegol diangen ar gyfer cŵn bach ifanc ond cynyddu straen a dryswch i'r cŵn bach. Mae gwerthu cŵn bach i ffwrdd o'r lleoliad lle mae'r cŵn bach yn cael eu bridio a'u magu yn lleihau tryloywder y system ac yn hwyluso arferion bridio erchyll." (Kennel Club)

Yn ogystal â lles y cŵn a'r cathod bach, nodwyd ffactorau eraill hefyd gan ein hymatebwyr megis Awdurdodau Lleol, Trwyddedu a Chofrestru, Mewnforion, y Cynllun Teithio Anifeiliaid Anwes, gwahanu'r anifail oddi wrth ei fam, ffermwyr cŵn bach ac atebolrwydd.

Dyma ddeholiad o'r ymatebion niferus a gawsom yn ymdrin â hyn:

- "Pob bridwr yn cael ei drwyddedu neu ei gofrestru ac yn cael trwydded neu rif cofrestru (hyd yn oed os mai dim ond un toraid y mae bridwr wedi'i gael). Dylai trwyddedu fod yn berthnasol i'r bridwyr hynny sy'n cynhyrchu mwy nag isafswm o doreidiau y flwyddyn yn unig a byddai'n cynnwys archwilio eiddo ac ati. Byddai'n ofynnol i'r rhai sy'n bridio o dan y trothwy hwn gofrestru'r dorraid (hyd yn oed os oedd yr anifeiliaid wedi paru'n ddamweiniol) drwy e.e. porth ar-lein syml a fyddai'n rhoi rhif cofrestru iddynt. Byddai rhif cofrestru/trwydded yn galluogi olrheiniadwyedd a gellid ei ddangos ar hysbysebion ar-lein ac ati. Heb sicrhau bod pob bridwr naill ai wedi'i drwyddedu neu wedi'i gofrestru, byddai rhai bridwyr diegwyddor yn gallu gweithredu islaw'r trothwy trwyddedu ac ni fyddai awdurdodau lleol yn ymwybodol o'u gweithgareddau nac yn gallu eu harchwilio. Gellid cael ateb digidol syml i gyd-fynd â hyn sef porth ar-lein ar gyfer y cyhoedd sy'n galluogi prynwyr i wirio statws cofrestru bridwyr. Er ei fod yn berthnasol yn bennaf i fridio cŵn ar hyn o bryd, gellid gwneud yr un fath yn achos bridio cathod hefyd gan ddarparu cysondeb ar draws y ddwy brif rywogaeth hyn ar gyfer darpar berchnogion anifeiliaid anwes." (PDSA)
- "Mae llawer o awdurdodau lleol wedi gweld toriadau sylweddol i'w cyllid dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r diffyg adnoddau yn broblem wirioneddol hefyd gan nad yw'r awdurdodau lleol yn gallu ymchwilio'n rhagweithiol i werthwyr didrwydded. Ni wnaeth chwarter yr awdurdodau lleol yng Nghymru unrhyw ymchwiliadau o gwbl yn 2015, sy'n golygu nad oes unrhyw beth yn cael ei wneud i fynd i'r afael â phryderon lles mewn sefydliadau trwyddedig<sup>2</sup>. Mae hyn yn destun pryder o ystyried mai gan Gymru oedd â'r dwysedd uchaf o fridwyr cofrestredig ym Mhrydain ar y pryd gyda 179, gydag 81 yn Sir Gaerfyrddin a 41 yng Ngheredigion<sup>3</sup>.

Fel rhan o'r gwaith rhagarweiniol o gyflwyno unrhyw ddeddfwriaeth newydd, hoffem weld Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda llywodraeth leol i gael gwell dealltwriaeth o'r heriau sy'n wynebu awdurdodau lleol prin o adnoddau ar hyn o bryd wrth wneud gwaith ymchwilio i droseddau lles anifeiliaid tybiedig a'r adnoddau sydd eu hangen i sicrhau cydymffurfiaeth." (CAWGW)

- "Awgrymwyd y gallai pobl osgoi gwaharddiad ar werthu cŵn a chathod bach yn fasnachol drwy drydydd parti drwy fewnforio anifeiliaid anwes o dramor. Gellir mewnforio

<sup>2</sup> <https://www.bluecross.org.uk/sites/default/files/downloads/Unpicking%20the%20Knots%20report.pdf>

<sup>3</sup> <http://www.bdch.org.uk/files/Licensed-Dog-Breeding-in-Great-Britain-report.pdf>

anifeiliaid anwes i Loegr a rhannau eraill o'r DU drwy'r Cynllun Teithio Anifeiliaid Anwes a'r Balai. Fodd bynnag, byddai gwaharddiad ar werthu cŵn a chathod bach yn fasnachol drwy drydydd parti yng Nghymru yn berthnasol i anifeiliaid a fewnforiwyd. Y rheswm am hyn yw mai dim ond y bobl hynny a oedd wedi bridio anifeiliaid fyddai'n cael cwblhau'r gwerthiant yng Nghymru. O ganlyniad, bydd gwerthwyr trydydd parti yn cael eu hatal rhag gwerthu anifeiliaid a fewnforiwyd yng Nghymru." (David Cowdrey IFAW)

- Nid oedd 21% o'r ymatebwyr i'r arolwg wedi gweld y Fam na'r Tad wrth brynu ci bach. Mae hyn yn codi'r posibilrwydd bod y cŵn bach hyn mewn gwirionedd yn cael eu gwerthu gan ddelwyr yn hytrach na'r bridwyr. Pe bai'n rhaid i fridwyr hefyd ddangos y Fam gyda'r cŵn bach, yna byddai hyn yn welliant. Dylid nodi bod ein harolwg yn dangos bod 51% wedi gweld y Fam neu'r Fam a'r Tad. Fodd bynnag, doedd sawl ymatebydd ddim yn meddwl mai'r ci a gyflwynwyd gan y bridwyr fel y Fam oedd y Fam mewn gwirionedd, felly eto gallai'r rhain fod wedi bod yn ddelwyr trydydd parti gyda Mam a/neu Dad ffug." (Hope Rescue)
- "Mewn llawer o achosion mae'r cŵn bach hyn wedi'u gwahanu oddi wrth eu mam yn rhy fuan, mae hyn yn golygu nad yw'r ci bach yn cael y bacteria da sydd eu hangen i wrthsefyll problemau iechyd cŵn. Nid yw'r gwerthwyr mewn llawer o achosion wedi mynd â'r anifail at y milfeddyg i gael y brechiadau angenrheidiol, felly mae'n debyg bydd y perchnogion newydd yn wynebu bil milfeddyg enfawr. Mae hyn mor annerbyniol." (Dienw)
- "Rwy'n credu cant y cant bod RHAID gwahardd gwerthu cŵn a chathod drwy drydydd parti, mae ffermio cŵn bach yn rhemp, ac mae eu masnachu'n cael ei hwyluso gan y trydydd parti hyn, mae'n galluogi ffermio cŵn bach i drin geist magu yn warthus y tu ôl i'r llenni a thwylo pobl i feddwl bod y cŵn bach hyn yn dod o ffynhonnell ddibynadwy. Os yw rhywun eisiau ci bach, credaf y dylai wneud yr ymdrech i ddod o hyd i fridiwr AG ENW DA a bod yn barod i gael ei fetio gan y bridiwr hwnnw. Rhaid i ffermio cŵn bach STOPIO a'r unig ffordd i hynny ddigwydd yw os yw'r llywodraeth a chynghorau yn GWAHARDD GWERTHU DRWY DRYDYDD PARTI!" (Dienw)
- "Rwyf wedi gweld gyda'm llygaid fy hun gyflwr gwarthus cŵn a ddefnyddir i fridio ar ffermydd cŵn bach. Rhaid cael mwy o atebolrwydd." (Dienw)
- "Nid oes angen gwerthu cŵn a chathod bach drwy drydydd parti. Pe bai gan bawb sy'n bridio cŵn bach drwydded neu pe bai rhaid iddynt gofrestru eu gweithgareddau, yna gellid rheoli unrhyw weithgarwch dilynol sydd ei angen." (Dienw)
- "Gwahardd, heb os. Rwyf wedi gweld gyda'm llygaid fy hun gyflwr gwarthus cŵn a ddefnyddir i fridio ar ffermydd cŵn bach. Rhaid cael mwy o atebolrwydd." (Dienw)

Roedd 3% o'r ymatebwyr yn anghytuno â gwahardd gwerthu cŵn a chathod bach yn fasnachol drwy drydydd parti:

- "Mae Deddf 1951 yn gynhwysfawr o ran y gofynion ar berchnogion siopau anifeiliaid anwes i gadw anifeiliaid mewn amodau "priodol." (Dienw)
- "Nid yw gwahardd gwerthiannau masnachol drwy drydydd parti wedi gwneud unrhyw beth i wella lles anifeiliaid lle bynnag y maent wedi'u cyflwyno. Yn waeth, maent wedi gostwng safonau lles anifeiliaid. Mae Lloegr wedi gwahardd gwerthu cŵn a chathod bach drwy drydydd parti. Bellach mae'n rhaid i bobl deithio milltiroedd lawer er mwyn

gweld ci bach neu gath fach. Dydyn nhw ddim eisiau gwneud hyn felly maen nhw'n archebu un ar-lein. Mae rhai yn dod o hyd i ddelwyr yng Nghymru i gyflenwi eu hanifail anwes newydd. Mae eraill yn archebu o Ddwyrain Ewrop neu rywle arall.” (The Self Help Group for Farmers, Pet Owners and Others experiencing difficulties with the RSPCA)

## Cwestiwn 2:

### **Ydych chi'n credu y dylai gwaharddiad fod yn berthnasol i unrhyw anifeiliaid eraill sy'n cael eu gwerthu mewn siopau anifeiliaid anwes?**

Roedd 83% o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai gwaharddiad fod yn berthnasol i anifeiliaid eraill sy'n cael eu gwerthu mewn siopau anifeiliaid anwes. Soniwyd am rywogaethau amrywiol fel cwingod, pysgod, anifeiliaid egsotig ac adar.

- “Ydw, mae miliynau o gwingod yn cael eu bridio bob blwyddyn i blant eu cael ac yna eu gwaredu ychydig wythnosau neu fisoedd yn ddiweddarach am fod y plentyn wedi diflasu, yr un peth gyda'r bochdew ac unrhyw anifail arall a geir mewn siopau anifeiliaid anwes. Dyma wirionedd yr hyn sy'n digwydd a pham mae angen i ni roi'r gorau i orgynhyrchu anifeiliaid ac felly lleihau nifer yr anifeiliaid rydym yn eu lladd oherwydd bod y galw'n llai na'r nifer rydym yn ei gynhyrchu. Hefyd, mae llawer o siopau anifeiliaid anwes yn rhoi gwybodaeth anghywir. Does dim ond rhaid i chi edrych ar y cewyll a'r cytiau yn y siopau anifeiliaid anwes i weld bod yr hyn y maent yn ei werthu yn anaddas ar gyfer yr anifeiliaid y cânt eu gwerthu ar eu cyfer.” (Dienw)
- “Mae llawer o anifeiliaid anwes egsotig yn cael eu dympio pan fydd eu perchnogion yn sylweddoli bod angen iddynt ofalu amdanynt.” (Dienw)
- “Yng Nghymru, mae 47% o aelwydydd yn berchen ar o leiaf un anifail anwes, gyda chŵn a chathod yn cyfrif am y gyfran fwyaf o rywogaethau'r fasnach anifeiliaid anwes, gyda chŵn yn cyfrif am 62% a chathod yn cyfrif am 39% <sup>4</sup>. Er bod niferoedd uwch o gŵn a chathod yn debygol o gael eu masnachu, mae dadl gref bod angen yr un amddiffyniad ar bob anifail anwes ac yn wir nid yw Deddf Lles Anifeiliaid yn ceisio gwahaniaethu yn ei mesurau amddiffyn sy'n berthnasol i bob anifail sydd o dan ofal pobl. Mae hefyd yn nodi bod yr Alban yn ystyried cynnwys cwingod mewn gwaharddiad arfaethedig ar werthiannau trydydd parti, ac o gofio mai Llywodraeth Cymru oedd y cyntaf i geisio gwella'r amddiffyniad a roddir yn y gyfraith i gwingod drwy gyflwyno cod ymarfer unigryw yn 2009. Byddai'r RSPCA yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried adlewyrchu'r estyniad hwn ac, yn wir, gynnwys pob anifail anwes y mae angen ei amddiffyn yn erbyn bridwyr a masnachwyr diegwyddor.” (RSPCA)
- “Mae angen dybryd i'r Llywodraeth adolygu a diweddarau Deddf Anifeiliaid Anwes 1951 i adlewyrchu graddfa fawr gwerthu anifeiliaid dros y rhyngwyd a thwf yr arfer hwn. Mae angen mwy o eglurder ynghylch y meini prawf y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i safleoedd gael eu trwyddedu o dan y ddeddf.” (Blue Cross)
- “Ydw, ni ddylid gwerthu unrhyw anifail mewn siop. Allwn ni ddim dychmygu'r straen y mae hyn yn ei achosi. Cael plant yn taro'r gwydr, goleuadau llachar yn disgleirio arnynt pan fyddant angen cysgu (bochdewion ac ati) a gormod o sŵn.” (Linda Thompson)

---

<sup>4</sup> <https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-03/arolwg-cenedlaethol-cymru-lles-anifeiliaid-anwes-2014-15.pdf>



- “Mae angen ymroddiad, gofal a buddsoddiad ar anifeiliaid anwes ac felly dylai dod yn berchennog anifail anwes gael ei fetio'n fwy trylwyr o ran gallu pobl i ofalu am anifail anwes yn briodol. Nid yw siopau anifeiliaid anwes yn gwneud hyn ar hyn o bryd.” (Dienw)
- “Ydw. Dylai'r gwaharddiad ar werthiannau trydydd parti gynnwys cŵn bach, cathod bach a chwingod yn y man lleiaf gyda'r opsiwn o'i ymestyn i rywogaethau eraill o anifeiliaid anwes lle mae tystiolaeth yn cefnogi mesur o'r fath. Dylai'r gwaharddiad fod yn berthnasol i anifeiliaid o bob oed hefyd. Byddai hyn yn sicrhau nad oes bylchau yn y gyfraith a fyddai'n caniatáu i fridwyr masnachol ddal gafael ar anifeiliaid nes eu bod dros y trothwy oedran cyn eu gwerthu drwy werthwyr trydydd parti. Pe bai bwch o'r fath yn y gyfraith yn cael ei adael ar agor, byddai ond yn ymestyn dioddefaint cŵn, cathod ac anifeiliaid eraill mewn cyfleusterau bridio. Byddai gwneud y gwaharddiad yn berthnasol i anifeiliaid o bob oed hefyd yn ei wneud yn haws i'w orfodi drwy gael gwared ar unrhyw amwysedd posib ynghylch oedran anifail unigol.” (People for the Ethical Treatment of Animals Foundation)

O ran cwestiwn 2, dywedodd 8% o ymatebwyr na i waharddiad ar unrhyw anifeiliaid eraill sy'n cael eu gwerthu mewn siopau anifeiliaid anwes. Mae rhai o'r ymatebion yn sôn y dylid cadw'r gwaharddiad ar gyfer cŵn a chathod bach yn unig ac ni ddylai effeithio ar unrhyw anifail arall sy'n cael ei werthu.

- “Ar ôl ymgynghori ag aelodau'r Sefydliad Trwyddedu, awgrymir mai cŵn a chathod bach ddylai gael blaenoriaeth, ond y gellid ystyried pob gwerthiant anifeiliaid gan y bydd materion lles a chlodiant yn berthnasol i bob anifail, tra bod materion gwahanu yn fwy perthnasol i gŵn bach. Yn yr Alban, roedd yr ymgynghoriad ar drwyddedu anifeiliaid yn cynnwys cwingod, er nad oedd hyn yng nghyd-destun gwerthiannau trydydd parti yn benodol.” (Y Sefydliad Trwyddedu)
- “Dydw i ddim yn credu bod anifeiliaid fel pysgod neu anifeiliaid bach (bochdewion, moch cwta ac ati) yn gwneud hanner cymaint o arian â chŵn a rhai cathod, felly rwy'n credu bod anifeiliaid fel y rhain yn addas ar gyfer siopau anifeiliaid anwes ar yr amod y gallant warantu eu bod yn cael eu bridio'n gywir.” (Tania Allen)
- “Dylai'r newid hwn mewn deddfwriaeth fod yn berthnasol i gŵn a chathod bach o dan chwe mis oed yn unig ac ni ddylid ehangu arni ar hyn o bryd. Byddai IFAW hefyd yn argymhell yn gryf y dylid efelychu'r gwaharddiad presennol a gyflwynwyd yn Lloegr er mwyn creu cydraddoldeb a rhwyddineb gweithredu. Cred IFAW y dylai'r ddeddfwriaeth bresennol gael ei chyfyngu i gathod a chŵn bach oherwydd anghenion cymdeithasoli cymhleth cŵn a chathod bach o'u cymharu ag anifeiliaid anwes eraill. Bydd hefyd yn atal oedi cyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth a byddai ychwanegu anifeiliaid ychwanegol yn dechrau gwneud y ddeddfwriaeth yn rhy gymhleth i'w gweithredu.” (David Cowdrey IFAW)
- “Mewn lleoliad masnachol lle'r ydych chi'n gwybod beth rydych chi'n ei gael, er enghraifft, prynu anifail o Pets at Home, na. Mae'r problemau'n codi gyda gwerthiannau preifat lle gellir celu tarddiad yr anifail.” (Lauren Matthews)
- “Yn y lle cyntaf, mae Four Paws UK o'r farn y dylid mabwysiadu gwaharddiad ar frys ar gyfer cŵn a chathod bach ac y dylid ei ymestyn i rywogaethau eraill yn y dyfodol. Mae llawer o anifeiliaid yn cael eu cymryd o'r gwyllt, yn cael eu cadw a'u masnachu mewn dulliau anhylan a chreulon, sydd wedyn yn gallu peri risg i iechyd pobl. Gallai diffyg

olrheiniadwyedd unrhyw anifail anwes a werthir drwy drydydd parti arwain at faterion lles, diogelu defnyddwyr ac iechyd cyhoeddus tebyg fel yn achos masnachu cŵn a chathod bach. Mae cynnig anifeiliaid ymdeimladol mewn siopau anifeiliaid anwes yn arwain at brynu byrbwyll tebyg i brynu cŵn a chathod bach, sydd yn y pen draw yn aml yn arwain at bobl yn gadael yr anifeiliaid neu'n eu trosglwyddo i loches. Cynigir mamaliaid bach fel cwningod, moch cwta, llygod mawr, llygod, bochdewion ac eraill mewn siopau anifeiliaid anwes pan fyddant yn ifanc iawn – yr oedran y gellir eu gwerthu orau.” (Four Paws UK)

Roedd y 9% olaf o ymatebwyr i gwestiwn 2 yn ansicr ynghylch gwahardd anifeiliaid eraill rhag cael eu gwerthu mewn siopau anifeiliaid anwes. Y rheswm am hyn yw bod rhai o'r sefydliadau a ymatebodd yn ymdrin â chŵn bach a/neu gathod bach yn unig felly nid oeddent yn teimlo eu bod mewn sefyllfa i wneud sylwadau, neu nid oedd ganddynt farn ar hyn o bryd.

### **Cwestiwn 3:**

#### **Oes yna fesurau y gellid eu cyflwyno, heblaw gwaharddiad, a allai fynd i'r afael â'r problemau lles sy'n gysylltiedig â rhai bridwyr a gwerthwyr trydydd parti masnachol?**

Dyweddodd 64% o'r ymatebwyr i gwestiwn 3 fod mesurau eraill y gellid eu cyflwyno yng Nghymru heblaw gwaharddiad ac roedd yr ymatebion yn amrywio o gymorth gan awdurdodau lleol a chyrrff annibynnol, gwahardd mewnfurion ac allfurion, mesurau llymach gyda rheoliadau, gorfodi digonol a theledu cylch cyfyng ar gyfer bridwyr.

- “Dylai'r rheoliadau fod yn llymach a chael eu gorfodi'n briodol gydag archwiliadau mwy rheolaidd. Dylai fod gofynion gorfodol ar gyfer llety byw priodol, ymarfer corff a chymdeithasoli ar gyfer anifeiliaid bridio ar ffermydd cŵn bach a gwiriadau iechyd rheolaidd. Dylid talu am hyn drwy godi ffioedd mwy o lawer am drwyddedau fel bod y diwydiant yn talu am y gwasanaeth ac nid y cynghorau.” (Dienw)
- “I'r rhan fwyaf o sefydliadau, byddai trwyddedu gydag archwiliad llawn gan Awdurdod Lleol yn briodol. Fodd bynnag, i'r sefydliadau lleiaf sy'n ymdrin ag ychydig o anifeiliaid y flwyddyn yn unig, byddai system gofrestru Awdurdodau Lleol yn fwy priodol na thrwyddedu llawn. Byddai hyn yn sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn ymwybodol o bwy sy'n gofalu am anifeiliaid ac yn dweud wrth y cyhoedd eu bod yn gweithredu fel sefydliad lles, tra'n rhoi'r cyfle i rannu arferion gorau gyda nhw a'u hannog lle gallant ddod o hyd i gyngor a chymorth i gynnal lles anifeiliaid.” (Cartref Cŵn a Chathod Battersea)
- “Dylid gwahardd mewnfurion/allfurion anifeiliaid at ddibenion anifeiliaid anwes domestig yn llwyr a rhoi dirwy drom i dramgwyddwyr neu eu carcharu.” (Sylvia Thompson)
- “Rwy'n credu y dylid cael teledu cylch cyfyng ar bob fferm cŵn bach i sicrhau bod yr anifeiliaid y mae'r bridwyr yn elwa arnynt yn derbyn gofal priodol ac yn cael rhyw fath o fywyd.” (Jackie Bishop)
- “Cofrestr ar-lein o fridwyr wedi'u fetio y gall y cyhoedd ei chwilio a lle mae'r cyhoedd yn ychwanegu/cyflwyno manylion am y cŵn bach a brynwyd yn y sefydliad hwnnw er mwyn sicrhau gwiriadau priodol o gŵn bach sy'n cael eu bridio a'u gwerthu.” (Dienw)
- “Hefyd dylai'r bridwyr ddarparu tystiolaeth o ofal milfeddygol da, nid dim ond cardiau milfeddyg anghyfreithlon ysgrifenedig gyda stamp arno, lle maent wedi rhoi'r brechlynnau eu hunain (mae gennyf dystiolaeth o hyn).” (Julie Hargreaves)

Awgrymwyd trothwyon ar gyfer cŵn a chathod magu mewn rhai ymatebion hefyd. Rhoddodd Cats Protection dystiolaeth o hyn:

- “Yng ngoleuni'r ystod o gyflyrau iechyd ar gyfer cathod benyw sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd a genedigaeth, mae'n ymddangos yn synhwyrol i ganllawiau o fewn rheoliadau bridio nodi uchafswm o doreidiau y dylai cath eu cael mewn oes. I gathod, mae'n ymddangos bod uchafswm o chwe thorraid mewn oes yn cyd-fynd ag ymchwil academiaidd y mae'r elusen wedi'i hadolygu. Hefyd, mae'r elusen yn argymhell na ddylai cath fenyw gael torraid ar ôl 6 blwydd oed gan fod cynnydd sylweddol yn ystadegol mewn problemau iechyd sy'n gysylltiedig â bod yn anifail heb ei ddisbaddu o'r oedran hwn. Fodd bynnag, rhaid i uchafswm o'r fath gyd-fynd â chyfnodau addas rhwng toreidiau er mwyn diogelu lles y gath fridio. Mae'r elusen yn awgrymu nad ddylai unrhyw gath fridio gael mwy na thri thorraid o fewn cyfnod o ddwy flynedd. Ni ddylid annog mwy nag un torraid y flwyddyn.” (Cats Protection)

Yn ogystal â gwaharddiad, teimlai rhai ymatebwyr y dylem ddatblygu ymgyrchoedd sy'n annog newid ymddygiad gyda'r cyhoedd a'r rhai sy'n dewis prynu ci bach neu gath fach:

- “Credwn yn gryf y dylai gwaharddiad gael ei gefnogi gan ymgyrch sy'n deall ac yn ceisio dylanwadu ar newid ymddygiad. I fod yn effeithiol, mae'n angenrheidiol bod yr ymgyrch yn fwy nag addysgol, gan ganolbwyntio ar newidiadau hirdymor i'r ffordd y mae pobl yn prynu ci bach. Nid ydym yn credu y bydd ymgyrch addysgol yn ddigon i gyflawni'r canlyniad hwn, fel y gwelwyd gydag ymgyrchoedd tebyg eraill, gan gynnwys annog prynwyr i brynu'n gyfrifol, a'u hannog i weld y ci bach gyda'i fam ym mhob achos. Mae Defra wedi cynnal ymgyrch sy'n targedu defnyddwyr yn ddiweddar i fynd i'r afael â'r cyflenwad a'r galw ac i addysgu'r cyhoedd am brynu anifeiliaid anwes yn gyfrifol drwy eu hymgyrch 'petfishing'. Yn yr un modd, mae Dogs Trust wedi cynnal ein hymgyrch 'dogfishing' ein hunain i godi ymwybyddiaeth o arwyddion rhybudd pan fydd pobl yn ceisio prynu ci a beth i'w wneud os oes gennych bryderon.” (Dogs Trust)

Roedd 34% o'r ymatebwyr i gwestiwn 3 yn anghytuno ac yn dweud nad oedd unrhyw fesurau eraill y gellid eu cyflwyno heblaw gwaharddiad a fydd yn mynd i'r afael â'r problemau lles sy'n gysylltiedig â gwerthwyr trydydd parti masnachol. Dyma rai o'r ymatebion:

- “Na, byddai gormod o fylchau'n cael eu canfod yn y gyfraith.” (Dienw)
- “NA. Byddai'n ymddangos bod llawer o'r "cŵn bach trydydd parti" hyn wedi'u prynu gan ffynonellau didrwydded a fyddai'n dangos yn y lle cyntaf bod pobl yn bridio cŵn yn unswydd i wneud elw ariannol.” (Robert Hay)
- “Na. Mae'r gyfraith yn datgan bod yn rhaid i bob ci bach gael microsglodyn a'i gofrestru i'r bridwr ond nid yw hyn hyd yn oed yn digwydd gan fod unrhyw un yn cael gosod microsglodyn ac mae'r rhan fwyaf yn dosbarthu cardiau sy'n cael eu trosglwyddo i'r perchennog newydd, a hwnnw wedyn yw'r person cyntaf i gofrestru'r ci bach neu gath fach felly dim ond milfeddyg ddylai allu gosod microsglodyn a dylai cŵn bach gael eu cofrestru i'r bridwr gan y milfeddyg.” (Sandra Lovesey)
- “Mae angen iddo fod yn waharddiad neu fel arall byddai'r problemau lles gyda theithio a thrawsheintio yn parhau.” (Mandy Dumont)

- “Nac oes – rhaid cael gwaharddiad llym. Os byddwch yn gweithredu unrhyw beth heblaw gwaharddiad – pwy neu beth sy'n mynd i orfodi unrhyw beth arall os byddwch yn ei gyflwyno? O ystyried yr amser y mae wedi'i gymryd a duw a wŷr faint o ymgynghoriadau y byddwch yn eu cael. Cam-drin anifeiliaid yw hyn a rhaid iddo ddod i ben. Mae'r anifeiliaid, druan â nhw, wedi dioddef digon oherwydd y diawliaid hyn.” (Louise Smurthwaite)

Mae'r RSPCA hefyd yn adlewyrchu'r safbwyntiau hyn:

- “Nid yw'r RSPCA yn credu bod ffyrdd eraill o fynd i'r afael â'r pryderon lles sy'n rhan annatod o system sy'n caniatáu i werthwyr trydydd parti fasnachu mewn anifeiliaid. Fodd bynnag, nid y gwaharddiad ar werthiannau trydydd parti, y mae'r RSPCA yn ei gefnogi'n llawn, yw'r unig fesur sydd ei angen er mwyn mynd i'r afael â phroblemau hynod arwyddocaol o ran cynhyrchu cŵn a chathod bach ar gyfer y farchnad yn ehangach. Yn ogystal â sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw fylchau posibl yn y gyfraith ar wahardd gwerthiannau trydydd parti, mae'r RSPCA wedi manylu ar y pryderon niferus sydd gennym ynghylch bridio anifeiliaid fel anifeiliaid anwes ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yn ein hymateb i'r ymgynghoriad blaenorol ar y mater hwn<sup>5</sup> yn ogystal ag yn adolygiad diweddar y Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid o fridio cŵn<sup>6</sup>.” (RSPCA)
- “Nac oes. Rydym yn ansicr pam mae angen i Lywodraeth Cymru ofyn yr un cwestiwn ag a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad blaenorol a gynhaliwyd flwyddyn yn ôl. Ailadroddwn yr un ymateb i ni ei roi i'r ymgynghoriad hwnnw ac rydym yn ei gredu o hyd, oherwydd bod cysylltiad annatod rhwng y gweithgaredd hwn a niwed i les, nad oes unrhyw fesurau eraill ar wahân i waharddiad a fyddai'n llwyddiannus. Fodd bynnag, yn y cyd-destun ehangach rydym bob amser wedi datgan mai gwaharddiad yw'r camau cyntaf tuag at wella lles cŵn bridio a chŵn bach.” (CARIAD)
- “Nac oes. Mae DBRG yn nodi'r tebygrwydd rhwng y cwestiwn hwn a Chwestiwn 3 yn ymgynghoriad 2019. Ni fu unrhyw ddatblygiadau yn y cyfamser sydd wedi newid ein barn, felly mae ein hymateb yn aros yr un fath.” (Dog Breeding Reform Group)
- “Rwy'n credu bod yn rhaid ymdrin â hyn drwy waharddiad llwyr, byddai unrhyw beth llai yn rhoi cyfleoedd i'r bridwyr diegwyddor werthu eu cŵn a chathod bach.” (Ann Louise Little)

Roedd 2% o'r ymatebwyr yn ansicr a allai unrhyw fesurau eraill heblaw gwaharddiad fynd i'r afael â phroblemau lles.

#### Cwestiwn 4:

**Nid yw llochesau a chanolfannau ailgartrefu wedi'u diffinio'n gyfreithlon ond byddwn yn cyfeirio atynt fel sefydliadau lles anifeiliaid at ddiben yr ymgynghoriad hwn. Maent yn codi ffi ar gyfer ailgartrefu anifeiliaid sydd yn eu gofal (ond maent wedi'u heithrio o reoliadau trwyddedu anifeiliaid anwes presennol gan nad ydynt yn fasnachol eu natur). Nid oes gofyniad cyfreithiol i gynnal gwiriadau ac yn gyffredinol, nid yw Awdurdodau Lleol yn cynnal gwiriadau rheolaidd yn y sefydliadau hyn.**

<sup>5</sup> <http://www.politicalanimal.org.uk/wp-content/uploads/2020/01/Welsh-Government-Third-Party-Sales-Consultation-RSPCA-Response-May-2019-2.pdf>

<sup>6</sup> <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-03/brido-cwn-adolygiad-rheoliadau-lles-bridio-cwn-cymru-2014.pdf>

**Hefyd, rydym yn pryderu y gallai hyn adael bwlch yn y ddeddfwriaeth i osgoi gwaharddiad posibl.**

## **Ydych chi'n credu y dylid craffu'n fanylach ar sefydliadau lles anifeiliaid yng Nghymru?**

Roedd 96% o'r ymatebwyr i gwestiwn 4 yn cytuno ac yn mynegi y dylid craffu'n fanylach ar sefydliadau lles anifeiliaid yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebion yn amlinellu rhai o'r materion a allai fod yn gysylltiedig â sefydliadau lles anifeiliaid:

- “Ydw, rwy'n credu y dylid dosbarthu llochesau, canolfannau ailgartrefu a chanolfannau achub fel gwerthwyr trydydd parti masnachol ac felly dylid eu trwyddedu. Mae llawer o arian yn cael ei wneud heb fawr ddim gwiriadau, os o gwbl.” (Dienw)
- “Rwy'n credu y dylid cael mwy o graffu cyn belled â'i fod yn dibynnu ar gymorth (ariannol) digonol, yr unig ddewis arall fyddai cau llawer o lochesau llai a byddai'n arwain at gynnydd mewn difa anifeiliaid. Dylid gwirio unrhyw bryder am les. Mae'r rhan fwyaf o weithrediadau lles yn gofyn am lefel uwch o ymrwymiad a safonau gan deuluoedd sy'n mabwysiadu na bridwyr.” (Lindsay Brewis)
- “Er bod llawer o sefydliadau achub ac ailgartrefu eisoes yn cyflawni safonau lles uchel iawn, gwyddom fod sefydliadau ac unigolion yn gweithredu fel canolfannau achub sydd weithiau'n cael eu boddi gan anifeiliaid ac yn ei chael hi'n anodd diwallu anghenion lles yr anifeiliaid yn eu gofal. Felly, mae'n eithriadol o bwysig bod unrhyw system drwyddedu yn cael ei defnyddio law yn llaw â system archwilio sy'n sicrhau bod safonau lles yn cael eu bodloni a'u cynnal. Fel aelod blaenllaw o'r Association of Dogs and Cats Homes (ADCH), gwyddom fod system eisoes ar waith gydag aelodaeth, safonau ac archwiliadau a allai chwarae rhan bwysig yn y gwaith o sefydlu unrhyw system drwyddedu newydd. Mae Blue Cross yn erfyn ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu safonau penodol ar gyfer sefydliadau achub ac ailgartrefu cŵn a chathod yn seiliedig ar safonau gofynnol yr ADCH.<sup>7</sup> Mae angen ymgynghori'n ehangach hefyd i sicrhau bod y cod ymarfer yn addas at y diben ar gyfer pob sefydliad lles anifeiliaid, gan ymgysylltu â rhanddeiliaid ehangach o bob rhan o'r sector, er enghraifft, canolfannau achub a llochesau bywyd gwyllt.” (Blue Cross)
- “Ydw, mae'n ymddangos bod rhai canolfannau achub yn rhywle i fridwyr cŵn ddympio'u cŵn.” (Dienw)
- “Yn sicr, dylent gael eu trwyddedu a thalu ffi am y drwydded honno'n flynyddol. Dylent fod yn ddarostyngedig i'r un dirwyon â bridwyr a phob un ohonynt, waeth a ydynt yn elusen gofrestredig ai peidio rhaid iddynt gynhyrchu cyfrifon blynyddol i'w harddangos ar wefannau'r cyngor.” (Dienw)
- “Bu sawl achos yn ystod y blynyddoedd diwethaf o fridwyr diegwyddor yn sefydlu eu hunain fel canolfan ailgartrefu i gelu gweithrediadau ffermio cŵn bach. Mewn achos a gafodd sylw eang yng Ngweriniaeth Iwerddon<sup>8</sup> ac yn yr un modd yn Lloegr, eleni roedd gwerthwr wedi cyflwyno ei hun fel 'canolfan achub' gan godi prisiau uwch nag y byddai canolfan ailgartrefu ddilys yn eu codi<sup>9</sup>.” (CAWGW)

<sup>7</sup> <https://www.adch.org.uk/about-adch/minimum-welfare-operational-standards/>

<sup>8</sup> <https://www.irishmirror.ie/man-who-jailed-animal-cruelty-14044234>

<sup>9</sup> <https://www.mirror.co.uk/news/pet-store-inspectors-move-after-22170385>

- “Mae IFAW o'r farn os yw Llywodraeth Cymru am godi safonau lles anifeiliaid, dylai canolfannau ailgartrefu gael eu diffinio'n gyfreithiol a hefyd gael eu trwyddedu a'u harchwilio. Bydd hyn yn cynnal safonau lles uchel ac yn atal rhai gwerthwyr diegwyddor rhag diffinio'u gweithgareddau'n wahanol i osgoi archwiliadau. Mae angen i Lywodraeth Cymru reoleiddio sefydliadau ailgartrefu a llochesau, oherwydd o dan y rheolau presennol gall unrhyw un sefydlu ei hun fel un, gan roi cyfle hawdd o bosibl i werthwyr cŵn a chathod bach diegwyddor gam-fanteisio ar y bwlch hwn yn y ddeddfwriaeth. Ni fydd gan bob canolfan ailgartrefu ac achub ddilys ddim i'w ofni na'i gelu a dylent groesawu trwyddedu ac archwilio gan mai'r anifeiliaid yn eu gofal a chynnal y safonau lles uchaf ddylai fod eu prif flaenoriaeth.” (David Cowdrey - IFAW)
- “Dylid craffu'n fanylach ar sefydliadau lles anifeiliaid yng Nghymru. Dylid ystyried yr angen iddynt ddal trwydded i sicrhau bod lles yr anifeiliaid yn cael ei ystyried ac i sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn cynnal archwiliadau rheolaidd. Byddai'r gofyniad i ddal trwydded hefyd yn helpu i gadw unigolion rhag cam-fanteisio ar y 'bwlch' yn y ddeddfwriaeth a chynorthwyo cyrff gorfodi. Bydd hefyd yn helpu i sicrhau bod safonau lles anifeiliaid cyson yn cael eu rhoi ar waith ar draws sefydliadau.” (Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen)
- “Ydw – unwaith eto, dangosodd yr ymatebion yn yr ymgynghoriad blaenorol gefnogaeth i lochesau a chanolfannau ailgartrefu fod yn destun rheolaethau llymach. Byddai llawer o sefydliadau eu hunain yn croesawu rheolaethau, yn enwedig lle y mae pryderon gwirioneddol ynghylch eu gallu i gael dau ben llinyn ynghyd. Mae gwybodaeth gynyddol i ddangos ei bod hi'n hawdd iawn i'r hyn sy'n dechrau gyda bwriadau da fynd yn anhylaw a llethu unigolion yn y pen draw. Erbyn i hyn ddod i sylw ALI mae naill ai'n rhy hwyr neu mae angen achos llys neu gamau eraill ar gost sylweddol i'r trethdalwr.” (Safonau Masnach Cymru)
- “Credwn felly y byddai'n fuddiol i les anifeiliaid pe bai sefydliadau lles anifeiliaid yng Nghymru yn destun craffu manylach, ar yr amod wrth reswm ein bod yn taro'r cydbwysedd cywir o ran sicrhau arferion lles anifeiliaid da, ond nad ydym yn atal canolfannau achub bach, arbenigol, megis canolfannau achub ar gyfer bridiau penodol sydd fel arfer yn ailgartrefu nifer gymharol fach o gŵn ond sy'n gwneud gwaith gwerthfawr yn wirfoddol.” (Kennel Club)

Dim ond 2% o'r ymatebwyr i gwestiwn 4 oedd yn teimlo na ddylid craffu ar sefydliadau lles yng Nghymru.

- “Ddim ar hyn o bryd. Pe bai ymchwydd mewn "canolfannau achub" newydd a oedd mewn gwirionedd yn ffermwyr nad oeddent yn cydymffurfio â'r gyfraith, byddai'r cyhoedd yn gweld hyn yn gyflym ac ni fyddent yn prynu oddi wrthynt. Ar hyn o bryd, mae llochesau a chanolfannau ailgartrefu yn adnabyddus ac yn cael eu rhedeg yn dda. Dydw i ddim yn gweld hynny'n newid.” (Dienw)
- “Mae adran esboniadol yr ymgynghoriad yn cyfeirio at faterion sy'n ymwneud yn benodol â gwerthu cŵn a chathod bach fel gweithgaredd masnachu yn unig. Ni sonnir am ganolfannau achub ac eithrio fel rhywle i gael ci, nac am unrhyw faterion lles sy'n gysylltiedig â chanolfannau achub. Dylid ystyried problemau posibl a'r posibilrwydd o reoleiddio canolfannau achub/ailgartrefu o dan ymgynghoriad ar wahân i sicrhau bod y pwnc yn cael ei ystyried yn briodol.” (CARIAD)

- “Na - gallai'r anhawster yma fod oherwydd nifer yr anifeiliaid y maent yn eu derbyn. Weithiau bydd mewnlifiad tymor byr ond angenrheidiol er diogelwch anifeiliaid a fyddai fel arall yn cael eu difa gan y bridwr. Nid yw'n anarferol i swp o 50 o gŵn bach/cŵn gael eu hachub ar yr un pryd. Byddai angen i reoliadau ganiatáu ar gyfer hyn.” (Dienw)

## Cwestiwn 5:

### **Ydych chi'n credu y dylid ystyried canolfannau ailgartrefu/achub fel gwerthwr trydydd parti yng Nghymru? A ddylent gael trwydded?**

Teimlai 34% o ymatebwyr y dylid ystyried llochesau a chanolfannau ailgartrefu ac achub fel gwerthwyr trydydd parti ac y dylid eu trwyddedu. Ni dderbyniwyd ymateb gan 3% o'r ymatebwyr.

- “Ydw. Er mwyn sicrhau cysondeb ac atal pobl ddiogwyddor rhag dod o hyd i fylchau yn y ddeddfwriaeth.” (Carol Armstrong)
- “Ydw, ni fydd sefydliadau dilys yn ofni craffu ond dylai'r taliadau am drwyddedau fod yn fach iawn.” (Dienw)
- “Ydw, rwy'n credu y dylid eu hystyried fel gwerthwyr trydydd parti ac felly dylid eu trwyddedu.” (Dienw)
- “Ydw. Mae llawer o dystiolaeth bellach bod llawer o sefydliadau lles yn mewnfurio cŵn a thoreidiau o gŵn bach yn unswydd er mwyn eu gwerthu er elw. Mae angen i'r sefydliadau hyn gael eu rheoleiddio a chael eu dal i gyfrif.” (Linda Jenkins)
- “Ydw, er mwyn cydymffurfio â'r holl ofynion statudol rhaid eu hystyried fel gwerthwyr 3<sup>ydd</sup> parti masnachol a'u trwyddedu yn unol â hynny.” (Dienw)
- “Ydw. Fel y nodwyd uchod, dylid trwyddedu llochesau a chanolfannau ailgartrefu ac achub er mwyn diogelu anifeiliaid ac atal bridwyr a gwerthwyr diegwyddor rhag parhau i fasnachu mewn anifeiliaid drwy ymddangos fel canolfannau achub neu ailgartrefu – fel y maent wedi'i wneud mewn mannau eraill sydd wedi gweithredu deddfwriaeth sy'n ceisio rhoi diwedd ar ffermio anifeiliaid anwes yn ddwys. Er enghraifft, yn dilyn gwaharddiad ar werthu anifeiliaid o felinau cŵn bach mewn siopau anifeiliaid anwes yn Chicago, sefydlwyd nifer o sefydliadau achub ffug, ac roedd siopau yn honni eu bod wedi cael yr anifeiliaid roeddent yn eu gwerthu o'r "canolfannau achub" hyn. Yn yr un modd, yn nhalaith Iowa yn UDA, arweiniodd cyflwyno gwaharddiad ar felinau cŵn bach at "wyngalchu cŵn bach", lle'r oedd gwerthwyr yn hysbysebu cŵn o felinau cŵn bach fel anifeiliaid wedi'u hachub.” (People for the Ethical Treatment of Animals Foundation)
- “Ydw – fel arall mae'n gadael bwlch posibl yn y ddeddfwriaeth. Efallai y dylid cael terfyn neu hyd yn oed waharddiad ar fewnfurio anifeiliaid yr honnir eu bod wedi'u hachub o Sbaen, yr Eidal neu Wlad Groeg. Llawer gwell fyddai ceisio gwella lles anifeiliaid yn y gwledydd hynny.” (Dienw)
- “Ie, sicrhau lles yr anifeiliaid a sicrhau cysondeb ledled Cymru. Bydd hyn yn caniatáu i Awdurdodau Lleol gynnal archwiliadau rheolaidd a bydd yn helpu i ganfod unrhyw broblemau sydd angen sylw. Gellid hefyd ystyried gweithredu safonau gofynnol y byddai angen glynu wrthynt os nad ydynt wedi'u trwyddedu.” (Dienw)

- “Ydw. Yn aml, mae'r rhai sy'n sefydlu eu hunain fel canolfan ailgartrefu/achub unigol neu leol lai y tu hwnt gyrraedd gofynion cyfreithiol felly boed yn ganolfannau hirsefydledig neu'n ganolfannau lleol bach neu'n unigolion, mae angen trwydded arnynt i weithredu a all roi dilysiad ac awdurdod iddynt weithredu er budd iechyd a lles yr anifeiliaid sy'n dod i'w gofal.” (Dienw)
- “Ydw. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod anifeiliaid nad ydynt yn gallu cael eu hailgartrefu, oherwydd eu hanes, yn derbyn gofal. Dylai unrhyw un sy'n gofalu am anifeiliaid gael trwydded i'w diogelu nhw a'r cwsmer. Er bod llochesau'n codi ffioedd mabwysiadu i ailgartrefu anifail, nid oes gwiriadau cefndir ar gael bob amser ar gyfer cartref newydd yr anifail. Mae gan rai pobl hanes neu waharddiadau esgeuluso anifeiliaid, nad ydynt bob amser yn gallu cael eu gweld gan ganolfannau ailgartrefu.” (Stephanie Hockly)

Roedd nifer gyfartal (34%) o ymatebwyr i gwestiwn 5 yn teimlo na ddylid ystyried llochesau, canolfannau ailgartrefu ac achub fel gwerthwr trydydd parti masnachol.

- “Rwy'n credu bod y canolfannau ailgartrefu yn gwneud gwaith gwych a gallent wneud tro â rhywfaint o gyllid. Rhaid iddynt i gyd gadw cofnodion electronig ac o bosibl adrodd i Lywodraeth Cymru yn rheolaidd. Dylem allu olrhain y ci bach o'r adeg y mae'n cyrraedd y ganolfan i gael ei ailgartrefu - dyddiadau, manylion y ci bach, manylion y perchennog newydd - dylid rhoi proses o'r dechrau i'r diwedd ar waith, fel ein bod yn gwybod yn union beth sy'n digwydd ym mywydau'r cŵn bach hyn.” (Dienw)
- “Na, ddylen nhw ddim cael eu hystyried fel gwerthwyr trydydd parti. Maent yn elusennau cofrestredig ac nid yw'r ffioedd a godir ond yn talu costau'r gofal milfeddygol y maent eisoes wedi'u talu i helpu'r anifeiliaid hyn i ddod o hyd i'w cartrefi parhaol.” (Claire Tottle)
- “Nac ydw. Dylent gael eu trwyddedu a'u harchwilio, ond ni ddylent gael eu hystyried fel gwerthwyr trydydd parti masnachol. Mae canolfannau achub ac ailgartrefu yn helpu i ddiogelu lles anifeiliaid pan nad oes gan anifeiliaid berchennog, yn hytrach na gwerthu anifeiliaid am elw. Er y gallant godi ffi ailgartrefu, mae'r ffi hon yn fach iawn ac nid yw fel arfer yn adennill costau gofalu am anifail yn y cyfnod cyn ei ailgartrefu. Pan gyflwynir unrhyw reoliad newydd, dylai fod cyfnod paratoi priodol i sicrhau bod canolfannau ailgartrefu / achub dilys yn gallu cydymffurfio. Gellid defnyddio aelodaeth o sefydliadau fel ADCH i gynorthwyo gyda hyn drwy fecanweithiau fel eu Safonau Lles a Gweithredu Gofynnol presennol.” (PDSA)
- “NA - ddylen nhw ddim. Rheswm: NID ffi gwerthu yw'r ffi a godir gan ganolfannau lles anifeiliaid ond cyfraniad at gost y gofal y mae'r anifail wedi'i gael yn ystod ei arhosiad yn y lloches. Mae hefyd yn fodd o wirio pa mor ddifrifol yw bwriadau darpar berchennog anifail anwes. Fel nyrs filfeddygol, rwyf wedi gwirfoddoli mewn lloches RSPCA ac wedi gweithio'n agos gyda sefydliadau fel y Cats Protection League a'r Dogs Trust; a chredaf fod y sefydliadau hyn yn poeni llawer am ddarpar gartrefi eu hanifeiliaid anwes ac yn gwneud yn siŵr bod eu hanifeiliaid yn mynd i gartrefi cariadus a gofalgar. Dylai llochesau'r sefydliadau mawr, adnabyddus hynny (RSPCA, Dogs Trust, Cats Protection League, Cinnamon Trust ac ati) gael eu heithrio rhag rheolau neu wiriadau ychwanegol ac ni ddylid eu hystyried fel gwerthwr trydydd parti, yn syml oherwydd nad dyna ydynt - a byddai eu hystyried fel y cyfryw yn defnyddio arian o roddion gwerthfawr y mae ei angen yn ddybryd i ofalu am yr anifeiliaid anwes yn y llochesau hynny!” (Dienw)
- “Nac ydw. Pe bai canolfannau achub/ailgartrefu yn cael eu hystyried fel gwerthwr masnachol 3ydd parti ac yn cael eu gwahardd rhag ailgartrefu anifeiliaid, ni fyddai dim dewis ond difa anifeiliaid a achubir. Pe bai sefydliadau o'r fath yn cael eu hatal rhag codi



ffi fabwysiadu, byddai incwm yn cael ei leihau ac felly gellid achub, adsefydlu ac ailgartrefu llai o anifeiliaid. Pe na bai sefydliadau achub yn gallu codi tâl am anifeiliaid sy'n cael eu mabwysiadu, yna ni fyddent bellach mewn sefyllfa i adennill TAW ar wasanaethau a nwyddau a brynir. Yn bwysicaf oll, mae canolfannau achub go iawn yn cymryd perchnogaeth o'r anifeiliaid y maent yn eu derbyn. Felly, wrth eu rhoi i'w mabwysiadu, am ffi neu heb ffi, nid ydynt yn werthwyr 3ydd parti gan mai nhw yw perchennog yr anifeiliaid hynny.” (Jean Rawlings)

- “Nac ydw. Nid yw'n fasnachol, mae ailgartrefu anifail anwes yn anghenraid ac nid yn foethusrwydd. Byddai'r costau'n cael eu trosglwyddo i fabwysiadwyr, sydd eisoes yn talu ffi. Byddai perygl hefyd y byddai llwyth gwaith ychwanegol wrth fodloni safonau a gwaith papur newydd yn lleihau'r amser sydd ar gael ar gyfer archwilio cartrefi.” (Dienw)
- “Nac ydw, dydyn nhw ddim yn GWERTHU anifeiliaid. Maent yn ailgartrefu neu'n mabwysiadu anifeiliaid drwy broses o gyfweiliadau a gwirio cartrefi. Gwirio'n drylwyr a yw cartrefi'n addas ar gyfer anifail penodol.” (Dienw)
- “Nac ydw. Yn gyffredinol, maent yn defnyddio'r incwm i arbed mwy o anifeiliaid ond, unwaith eto, nid ydynt yn siŵr am ymddiried mewn sefydliadau llai.” (Mike Toozer)

Gan yr ymatebwyr a atebodd 'nac ydw', cafwyd rhai ymatebion a oedd yn nodi yr hoffent eu gweld yn cael eu trwyddedu a/neu reoliadau arbenigol wedi'u teilwra i weddu iddynt:

- “Awgryma Battersea y dylai unrhyw system reoleiddio posibl ar gyfer llochesau anifeiliaid ddefnyddio Safonau Lles a Gweithredol Gofynnol yr Association of Dogs and Cats Homes (ADCH) fel sail ar gyfer rheoleiddio'r safonau gofal y dylai canolfannau achub ac ailgartrefu eu cynnal. Dyma'r unig safon hunanreoleiddio sydd ar waith ar draws y sector ar hyn o bryd ac mae wedi sicrhau canlyniadau rhyfeddol o ran trawsnewid y gwasanaeth a ddarperir gan aelodau'r ADCH; gyda chymorth a gwybodaeth ADCH ei hun. Mae Llywodraeth yr Alban eisoes wedi ymgynghori ddwywaith ar gynigion; ac mae'n paratoi rheoliad drafft sy'n seiliedig ar safon bresennol ADCH. Yn Lloegr, mae DEFRA yn datblygu rheoliadau drafft yn seiliedig ar y safon ofynnol hon; ac roedd i fod i ymgynghori ym mis Mawrth 2020, cyn i'r pandemig Covid-19 olygu bod angen oedi.” (Cartref Cŵn a Chathod Battersea)
- “Na, nid gwerthwyr trydydd parti yw canolfannau achub. Fel y trafodwyd mewn rhannau eraill o'r ddogfen hon ac yn yr un flaenorol, mae'r RSPCA yn credu'n gryf y dylid trwyddedu sefydliadau lles anifeiliaid. Yn ddelfrydol, dylai'r math o drwyddedu fod mewn rheoliadau annibynnol sydd wedi'u llunio'n benodol ar gyfer sefydliadau lles anifeiliaid ac sy'n ceisio ymgorffori'r problemau eraill y deallir eu bod yn ffactor yn y sector achub yn ogystal â gwneud y Cod Ymarfer Gwirfoddol yn statudol. O gyflawni hyn, gall y ddeddfwriaeth i wahardd gwerthiannau trydydd parti ddarparu'r eithriad priodol ar gyfer sefydliadau lles anifeiliaid cyfreithlon, trwyddedig. Os na fydd hyn yn digwydd, neu fel mesur dros dro, byddai'r RSPCA yn cefnogi trwyddedu sefydliadau lles anifeiliaid drwy'r gwaharddiad trydydd parti i sicrhau nad oes unrhyw fylchau'n cael eu creu.” (RSPCA)
- “Mae Blue Cross yn credu'n gryf na ddylid ystyried llochesau/canolfannau ailgartrefu/achub fel gwerthwr trydydd parti masnachol yng Nghymru. Hoffem weld deddfwriaeth bwrpasol ar waith sy'n cydnabod y gwahaniaethau o ran bwriad ac arferion rhwng y sefydliadau hyn a busnesau er elw megis siopau anifeiliaid anwes a bridio cŵn.

Mae canolfannau ailgartrefu ac achub yn sefydliadau dielw; mae Blue Cross yn codi ffi ailgartrefu o £180 am gi llawn dwf, £200 am gi bach a £70 am gath. Nid yw'r ffi hon yn talu am gost gofal yr anifail. Nid yw rhai cyfleusterau ailgartrefu yn codi ffi ailgartrefu, ond maent yn gofyn am rodd. Nid yw llochesau'n ailgartrefu'r anifeiliaid yn eu gofal ac maent yn talu cost gydol oes yr anifail felly nid ydynt yn codi ffi ailgartrefu. O ganlyniad i hyn, nid yw sefydliadau lles anifeiliaid yn gweithredu yn yr un model â busnesau trwyddedig eraill ac mae'n hanfodol bod hyn yn cael ei gydnabod mewn unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol. Os caiff deddfwriaeth ei chreu nad yw'n ystyried y gwahaniaethau hyn, bydd yn ei gwneud yn haws i werthwyr diegwyddor danseilio unrhyw reoliadau drwy fanteisio ar fylchau ynddynt.

Er ein bod yn gwerthfawrogi bod Llywodraeth Cymru yn awyddus i gyflwyno gwaharddiad ar werthiannau trydydd parti, mae Blue Cross yn credu ei bod yn hanfodol edrych ar y darlun mawr a chydabod y methiannau ehangach yn y ddeddfwriaeth lles anifeiliaid bresennol. Hoffem weld un darn cyfunol o ddeddfwriaeth sy'n cynnwys atodlenni ar wahân ar y gwahanol weithgareddau sy'n gysylltiedig ag anifeiliaid, gan gynnwys sefydliadau lles anifeiliaid. Credwn y bydd unrhyw ddeddfwriaeth newydd yn fwyaf effeithiol fel rhan o gyfres fwy cynhwysfawr o fesurau ac y byddai gennym bryderon difrifol ynghylch ei heffeithiolrwydd pe bai'n cael ei chyflwyno fel diwygiad i Ddeddf Anifeiliaid Anwes 1951 sydd wedi dyddio.” (Blue Cross)

- “Ddim oni bai bod rheoliadau a gwiriadau lles ar waith gyda lles yr anifail yn hollbwysig i fudd masnachol y rhai sy'n gweithredu'r sefydliadau hyn.” (Dienw)
- “Nac ydw. Mae aelodau CAWGW yn dadlau'n gryf na ddylid ystyried sefydliadau lles anifeiliaid fel gwerthwyr trydydd parti masnachol. Mae angen rheoliadau annibynnol ar sefydliadau lles anifeiliaid a diffiniad clir o gwmpas eu gweithgareddau, ni ellir rheoleiddio'r sector yn ddigonol drwy ei ystyried yn werthwr trydydd parti masnachol.” (CAWGW)

Hoffai 29% o ymatebwyr i gwestiwn 5 eu gweld yn cael eu rheoli a'u trwyddedu'n well:

- “Efallai, ond mewn system ddwy haen i ddechrau ond gyda gweithrediadau llai manwl ar gyfer canolfannau sefydledig: byddant yn boddi mewn cŵn bach ar ôl y cyfnod clo cyn bo hir ac ni allant ymdopi â gwaith ychwanegol.” (Dienw)
- “Cyn belled â'i fod yn cael ei reoli'n briodol. Er enghraifft, roeddwn i'n arfer byw yng Nghasnewydd a dim ond un swyddog lles anifeiliaid sydd gan y cyngor ar gyfer y ddinas gyfan. Fe sy'n gyfrifol am wirio pob busnes yn y ddinas sy'n delio ag anifeiliaid, gan gynnwys llety cŵn a lletya yn y cartref. Mae'n amlwg mai codi arian i'r awdurdod lleol yw nod hyn ond nid oes ganddo amser ar gyfer unrhyw beth arall. Felly, os mai codi arian yw'r nod yn hytrach na sicrhau lles gorau'r anifeiliaid dan sylw, yna nid oes diben.” (Dienw)
- “Yn sicr, dylid eu trwyddedu, boed yn drwydded newydd ar gyfer sefydliadau elusennol, sefydliadau anifeiliaid y cyngor ac ati yn hytrach na thrydydd parti masnachol gan fod yr amodau a'r gofynion / trefniadau yn debygol o fod yn wahanol iawn. Bydd hefyd yn mynd i'r afael â hyfforddiant i wirfoddolwyr ac ati a ddylai fod yn hanfodol.” (Dienw)
- “Gallant ddarparu gwasanaeth lles defnyddiol ond dim ond os yw'r canolfannau destun craffu sy'n cynnwys gwiriadau ar hap a dirybudd. Dylai canolfan sy'n

gweithredu islaw'r safon gael 3 mis i wella gydag archwiliadau misol yn ystod y rhaglen wella. Dylid ei chau os nad yw'n cyrraedd y safon wedyn." (Gwyn Jones)

- "Rwy'n credu y byddai trwydded yn helpu i ddiogelu llochesau ac yn sicrhau eu bod yn cael eu rhedeg yn iawn ond rwy'n anghytuno â "gwerthwr trydydd parti" gan eu bod yn aml yn cael eu gwerthu am ffi safonol, er enghraifft £200 pan fyddai bridiwr wedi gwerthu'r un ci am £1500+." (Dienw)
- "Ni welaf unrhyw reswm pam na ellid eu gwirio a'u trwyddedu, ond ar gost yr awdurdodau lleol sy'n aml yn eu defnyddio fel 'sefydliadau gorlif' pan fydd eu canolfannau achub cyngor yn llawn. Gallai codi unrhyw daliadau ychwanegol ar lochesau/canolfannau ailgartrefu/achub waethygu'r sefyllfa ymhellach gan y byddai'r costau'n ei gwneud yn anodd iddynt barhau." (Dienw)
- "Rwyf wedi ailgartrefu cŵn achub ar dri achlysur. Rwyf wedi talu ffi bob tro ond nid yw'n agos at y gost o brynu ci bach o siop anifeiliaid anwes. Roedd gan fy nghif presennol ffi o £100.00 ynghyd ag unrhyw gyfraniad gwirfoddol yr hoffwn ei wneud. Byddai wedi costio o leiaf £850.00 fel ci bach. Efallai nad yw masnachol yn derm perthnasol. Onid oes modd cael categori penodol?" (Dienw)

#### **Cwestiwn 6:**

**Hoffem gael eich barn ar yr effeithiau y gallai gwaharddiad ar werthiannau masnachol drwy drydydd parti ei gael ar bobl â nodweddion gwarchoddedig fel y'u diffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 201012. Dyma'r nodweddion hyn:**

- **oedran;**
- **anabledd;**
- **aibennu rhywedd;**
- **priodas a phartneriaeth sifil;**
- **beichiogrwydd a mamolaeth;**
- **hil;**
- **crefydd neu gred;**
- **rhyw; a**
- **chyfeiriadedd rhywiol.**

Atebodd 92% o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn ac roedd safbwyntiau'n amrywio o ran a allai'r nodweddion uchod effeithio ar waharddiad ar werthu cŵn a chathod bach drwy drydydd parti. Nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn teimlo bod unrhyw effeithiau. Dyma rai o'r ymatebion:

- "Rwy'n credu mai'r effeithiau fyddai y gallai pobl anabl fod yn sicr na fyddai unrhyw gi bach y maent yn ei brynu wedi dod o uffern y ffermydd cŵn bach y mae Cymru yn enwog amdanynt erbyn hyn. O ran cyfeiriadedd rhywiol neu hil neu grefydd neu aibennu rhywedd, yna mae hyn yn amherthnasol. Byddai'r holl bobl yn y grwpiau uchod yn union fel unrhyw un arall ac yn ddiolchgar nad ydynt wedi prynu ci bach o fferm cŵn bach sy'n debygol o fynd yn sâl, gan achosi iddynt orfod gwario arian ar ffioedd milfeddyg enfawr dim ond i'w ci bach farw beth bynnag, fel y mae cynifer yn ei wneud o'r lleoedd hyn." (Dienw)

- “Dydw i ddim yn credu y bydd unrhyw effeithiau. Nid yw gwerthu anifail drwy drydydd parti yn cael unrhyw effaith ar ddata categori arbennig personau fel y'i diffinnir uchod. Ac eithrio darparu anifeiliaid gwasanaeth, a ddylai ddod o dan eithriad.” (Lauren Matthews)
- “Dydw i ddim yn gweld sut y byddai unrhyw un o'r nodweddion gwarchoddedig hyn yn y Ddeddf Cydraddoldeb yn cael eu heffeithio. Ar wahân i unigolion sydd angen anifeiliaid tywys/gwasanaeth. Dylai bridwyr yr anifeiliaid hyn fod yn gaeth i ddeddfwriaeth lem hefyd. Dylid gwneud y cyfan dros yr achos nid yr arian a chyda lles anifeiliaid yn cael blaenoriaeth ym mhob ymdrech.” (Dienw)
- “Dim. Y cŵn sy'n cael eu heffeithio. Mae pob un o'r grwpiau hyn, os gallant brynu ci a gofalu amdano, yn gallu prynu ci gan fridiwr cyfrifol.” (Locke's Dogs, Dog Welfare Alliance, ICAN: International Companion Animal Network)
- “Byddai pobl hŷn yn ei chael hi'n anoddach prynu anifeiliaid anaddas. Yn aml mae anifeiliaid anwes angen cael eu hailgartrefu am fod person 70 oed neu hŷn wedi prynu ci bach neu gath fach a naill ai wedi marw, neu ddim wedi gallu ymdopi â'r ci bach. Yn ddiweddar fe wnaeth person oedrannus dwi'n ei adnabod brynu ci bach bywiog o frîd mawr a oedd yn anaddas iawn ac erbyn hyn mae'r gŵr yn yr ysbyty gyda chlun wedi torri oherwydd bod y ci wedi tynnu'n rhy galed a bod y dyn wedi cwmpo. Yn yr achos hwn byddai'n lleihau cost i'r GIG. I'r rhai ag anabledau pe baent yn dewis mabwysiadu, bydd canolfannau achub yn sicrhau bod yr anifail yn addas ar eu cyfer. Gall rhai anabledau fel awtistiaeth ac ati achosi straen i'r anifail ac nid yw rhai anifeiliaid yn gallu ymdopi'n dda. Mae'n ofnadwy gweld rhywun sydd wedi bondio gydag anifail yn gorfod colli'r anifail hwnnw oherwydd bod yr anifail dan straen ac yn datblygu problemau ymddygiad. Ar gyfer pob nodwedd arall byddai'r effeithiau yr un fath ag unrhyw un arall.” (Dienw)

## Cwestiwn 7:

**Hoffem gael eich barn ar a allai'r gwaharddiad ar werthiannau trydydd parti masnachol gynnig unrhyw gyfleodd i wyrdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth yng Nghymru, yn unol â Chynllun Adfer Natur Cymru.**

### Beth fyddai'r effeithiau hyn?

Atebodd 82% o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi nodi nad oedd ganddynt sylwadau neu wedi'i adael yn wag. Nodir rhai o'r ymatebion isod:

- “Gobeithio y byddai rhai o'r bridwyr mawr yn mynd i'r wal a byddai eu difrod i'r amgylchedd gyda gwaredu gwastraff ac ati yn dod i ben.” (Locke's Dogs, Dog Welfare Alliance, ICAN: International Companion Animal Network)
- “Pe bai'n arwain at lai o anifeiliaid cigysol nad oes neb eu heisiau/sy'n cael eu gadael, gall leihau ysglyfaethu bywyd gwyllt gan y gall cathod ddinistrio poblogaethau adar a mamaliaid bach.” (PDSA)
- “Nid oes gennym unrhyw sylwadau penodol ond credwn y byddai unrhyw effeithiau'n gadarnhaol.” (Four Paws UK)
- “Mae'n anochel bod gwaharddiadau deddfwriaethol sy'n annog mwy o deithiau a/neu deithiau hirach yn annog mwy o lygredd hefyd, sy'n mynd ymlaen i gael effaith andwyol ar fioamrywiaeth a'r amgylchedd. Os yw'r deddfwriaeth honno hefyd yn annog pobl i

deithio dramor er mwyn prynu cŵn neu gathod bach, neu os yw'n annog llawer o gŵn a chathod bach i gael eu symud o wledydd sy'n caniatáu bridio a gwerthiannau trydydd parti i Gymru a/neu weddill y DU yna mae'r llygredd a achosir yn eithaf tebygol o gyrraedd gofod awyr Cymru gyda'r gwynt ac ychwanegu at yr effeithiau niweidiol ar fioamrywiaeth a'r amgylchedd. Dim ond os bydd anifeiliaid a fewnforir yn cario clefydau sy'n dianc i'r gwyllt y bydd bioamrywiaeth yn cael ei difrodi." (Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili)

- "Gall wneud gwahaniaeth cadarnhaol. Mae mwy o bobl yn gorfod meddwl ddwywaith a gwneud mwy o ymdrech cyn prynu ci, ac yn enwedig cath, yn hytrach na dim ond gweithredu ar fympwy, a gall hyn ond bod yn beth da. Gallai niwtro cathod yn hytrach nag elw ar werthu cathod bach leihau nifer y cathod yn sylweddol ac felly hefyd llofruddiaeth dorfol ddiangen o fywyd gwyllt brodorol gan gathod. Mae carthion ac wrin cŵn, a'r aflonyddwch pan fyddant yn crwydro ac ati yn cael effaith uniongyrchol ar yr amgylchedd (e.e. ychwanegu maetholion). Byddai llai o gŵn sy'n eiddo i bobl fwy cyfrifol sy'n ceisio lleihau'r effaith hon yn beth da i'r amgylchedd." (Caroline Hutchinson)
- "Gall cathod a ffureti gael effaith andwyol ar fioamrywiaeth ardal. Gall bridwyr, boed yn fasnachol neu fel arall, arwain at orboblogaeth o gathod. Felly, y peth hanfodol yw lleihau nifer y cathod drwy fynnu ar niwtro pob cath. Er mwyn diogelu bioamrywiaeth, byddai'n well gwneud darpariaeth i bobl drosglwyddo gofal o anifeiliaid anwes nad yw pobl eu heisiau fel therapiniaid yn hytrach na'u rhyddhau i'r amgylchedd." (Dienw)
- "Hyd y gwn i, byddai tynhau deddfwriaeth ar gyfer gwerthu anifeiliaid yn cael effaith gadarnhaol ar natur - gofalu am bob anifail boed yn ddomestig neu'n wyllt." (Dienw)
- "Mae unrhyw ymdrech i achub anifeiliaid rhag cael eu gorfridio a'u hesgeuluso yn gadarnhaol. Nid yw ein helusennau a'n canolfannau anifeiliaid yn cael digon o gefnogaeth. Byddai unrhyw gyllid gan y llywodraeth yn caniatáu i ganolfannau ddarparu mwy o swyddi i bobl leol a helpu i'w cadw ar agor. Mae gennym nifer fawr iawn o anifeiliaid nad oes neb eu heisiau ac sy'n cael eu hesgeuluso dim ond yng Nghymru. Bydd newid cyfreithiau bridio ac ailwerthu masnachol yn sicr yn helpu i gadw'r boblogaeth o anifeiliaid sy'n aros i gael eu hailgartrefu dan reolaeth. Mae canolfannau anifeiliaid yn iawn i godi ffi, ond dylent fod â chod ymddygiad y mae'n rhaid iddynt ei ddilyn yn unol ag unrhyw ganllawiau newydd a gyflwynir. Dros amser, dylai hyn helpu i reoli poblogaeth anifeiliaid strae." (Robin Morgan)

## **Cwestiwn 8:**

**Hoffem gael eich barn ar effeithiau gwahardd gwerthu cŵn a chathod bach drwy drydydd parti ar y Gymraeg, yn enwedig ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

**Beth fyddai'r effeithiau hyn? Sut fyddai modd cynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu leihau'r effeithiau negyddol?**

**Eglurwch hefyd sut rydych chi'n credu y gallai newid mewn polisi gael ei ffurfio neu ei newid fel ei fod yn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Atebodd 85% o ymatebwyr gwestiwn 8. Teimlai ymatebwyr na fyddai gwahardd gwerthiannau trydydd parti yng Nghymru yn cael unrhyw effaith ar y Gymraeg.

- “Oherwydd eu bod yn gwybod mwy am yr hyn sy'n digwydd yn y ffermydd bridio anifeiliaid hyn mae gan y Cymry gywilydd o'u treftadaeth. Mae Lloegr wedi llwyddo i gyflwyno'r polisi yn gyflym gan arwain at drosglwyddo anifeiliaid i ganolfannau achub ond am nad yw Cymru wedi gwneud y polisi hwn eto a chyda COVID 19 yn arwain at fridio miloedd yn fwy o anifeiliaid oherwydd y galw cynyddol, mae'n ein gwneud yn rhagrithiol pan ddywedwn ein bod yn genedl sy'n caru anifeiliaid oherwydd na all hynny fod yn wir. Ni all pobl sy'n caru anifeiliaid oddef cam-drin anifeiliaid ond eto dyna sy'n digwydd. Rydw i'n dysgu Cymraeg ar hyn o bryd ond mae gen i gymaint o gywilydd bod ffermio cŵn bach ac ati wedi cael parhau fel hyn a bod hynny'n parhau i ddigwydd yng Nghymru. Mae gen i gywilydd o'm gwlad, fy iaith a phopeth sydd a wnelo â Chymru. Bydd gwahardd ffermio bridio anifeiliaid, lleihau nifer yr anifeiliaid y gellir eu bridio bob blwyddyn i fod lawer is na'r galw i annog pobl i fabwysiadu a thrwyddedu canolfannau achub hyn briodol, ei gwneud yn anghyfreithlon i unrhyw un heb drwydded werthu unrhyw anifail hyd yn oed torraid damweiniol yn gwneud Cymru'n falch eto.” (Andrew Bateman)
- “Gobeithio y bydd prynu o'r man geni yn cynyddu gwerthiannau lleol gan wella'r defnydd o'r Gymraeg.” (Dienw)
- “Ni welaf unrhyw gysylltiad.” (Dienw)
- “Ni fyddai'n cael unrhyw effaith o gwbl.” (Dienw)
- “Alla i ddim gweld y byddai'r gwaharddiad yn cael unrhyw effaith negyddol ar y Gymraeg. Gallai fod dewis i gael unrhyw bapurau sy'n cael eu rhoi gyda'r ci bach neu'r gath fach yn Gymraeg a/neu'r Saesneg. Nid oes unrhyw effaith niweidiol ar yr iaith ar hyn o bryd felly ni all ond bod yn beth da i bobl sydd am gynnwys y Gymraeg yn eu pryniant os yw'r gwerthwr yn fodlon gwneud hynny. Nid yw pawb sy'n byw neu'n cael eu geni yng Nghymru yn defnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd bob dydd gan nad ydynt wedi cael eu magu yn defnyddio'r Gymraeg fel iaith gyntaf neu ail iaith.” (Leigh-Catherine Salway – Eiticat. Finishing School for Felines)

### Cwestiwn 9:

**Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi gofyn amdanynt neu os oes gennych chi unrhyw sylwadau defnyddiwch y gofod hwn i'w nodi.**

Atebodd 54% o ymatebwyr gwestiwn 9. Fodd bynnag, nid oedd gan y mwyafrif unrhyw sylwadau pellach ar wahân i'r ffaith yr hoffent weld gwaharddiad ar werthiannau trydydd parti yn cael ei roi ar waith cyn gynted â phosibl. Rhoddwyd tystiolaeth arall gan sefydliadau lles anifeiliaid:

- “Am resymau a amlinellwyd yn flaenorol, mae'r RSPCA hefyd yn dymuno gweld y gwaharddiad yn ymestyn i gŵn a chathod o bob oed fel ei bod yn haws i aelodau'r cyhoedd - sy'n annhebygol o allu pennu oedran ci/ci bach neu gath/gath fach eu hunain – i ddeall beth sy'n cyfrif fel gwerthu/trosglwyddo perchnogaeth yn gyfreithlon neu'n anghyfreithlon.
- Er nad yw'r gwaharddiad yn Lloegr wedi bod ar waith yn ddigon hir i bennu ei gryfderau a'i wendidau'n gynhwysfawr, credir bod ei effaith wedi bod yn isel hyd yma. Yn ystod yr

amser ers ei weithredu, ac mae hyn i'w briodoli i raddau helaeth i'r pandemig, mae mwy o bobl sydd gartref yn llawn amser wedi ceisio cwmnïaeth anifail anwes. Rhwng 23 Mawrth a 19 Gorffennaf eleni, cafodd adran Find a Pet ar wefan yr RSPCA 3,843,089 o ymweliadau unigryw o'i gymharu â 1,768,131 yn yr un cyfnod y flwyddyn flaenorol, sy'n gynydd o 17%. Yn ogystal, mae ein tudalen ar faethu wedi cael 215,000 o ymweliadau unigryw yn yr un cyfnod o'i gymharu â 40,566 yn ystod yr un cyfnod yn 2019 sy'n gynydd syfrdanol o 430%. Mae hefyd wedi dod yn farchnad gwerthwr gyda'r galw, am gŵn yn arbennig, yn llawer mwy na'r cyflenwad, ac felly mae prisiau wedi cynyddu. Mae'r RSPCA yn clywed achosion o gŵn bach yn newid dwylo'n rheolaidd am ffigurau ymhell i'r miloedd, nid cannoedd<sup>10</sup>. Mis Mai 2020 hefyd a welodd y gostyngiad mwyaf mewn cludo anifeiliaid o dan PETS<sup>11</sup>, yn amlwg oherwydd y cyfyngiadau teithio, ond hefyd gwelwyd un o'r cynyddiadau mwyaf yn y trwyddedau a gyflwynwyd ar gyfer mewnforio cŵn yn fasnachol yn ystod yr un cyfnod<sup>12</sup> sy'n awgrymu bod gwerthwyr wedi parhau â'u busnes fel arfer i bob pwrpas, a does dim dwywaith mai marchnad sy'n cynnig enillion ariannol uwch o lawer sydd wrth wraidd hynny. Mae'n bosib bod yr elw proffidiol hwn yn sbarduno'r fasnach anghyfreithlon yn ei dro hefyd<sup>13</sup>. (RSPCA)

- “Mae hwn yn gam bach ond hanfodol tuag at gefnogi ymhellach lles yr holl gŵn bach a chathod bach a'r anifeiliaid hynny a ddefnyddir i fridio'n anghyfreithlon heb fodloni safonau gofynnol a disgwylidig bridwyr trwyddedig. Ailwampio'r drefn bresennol yn llwyr a gweithredu model newydd yw'r ffordd hawsaf yn y pen draw o ddelio â'r problemau parhaus hyn sy'n ymestyn y tu hwnt i les ac sy'n helpu i gefnogi trosedd gyfundrefnol.” (Safonau Masnach Cymru)
- “Er mwyn i'r gwaharddiad ar werthiannau trydydd parti gyflawni ei nod sylfaenol h.y. gwella lles cŵn bach a chŵn bridio, rhaid mynd i'r afael â'r farchnad cŵn bach mewn ffordd gyfannol. Rhaid i ni alluogi'r cyhoedd sy'n prynu cŵn bach i allu prynu cŵn bach sydd wedi'u bridio'n gyfrifol yn uniongyrchol gan fridwyr a/neu sefydliadau lles anifeiliaid dilys. Gwyddom fod y rhan fwyaf o'r fasnach trydydd parti bresennol mewn cŵn bach eisoes yn anghyfreithlon. Rhaid inni wneud mwy i helpu prynwyr i nodi lleoedd priodol i ddod o hyd i'w cŵn bach ac felly sicrhau cyflenwad da o gŵn bach domestig drwy annog bridwyr cyfrifol i fridio. Bydd galw bob amser am gŵn bach ac mae angen i'r Llywodraeth sicrhau nad yw biwrocratiaeth ddiangen o feichus neu oblygiadau ariannol rheoliadau yn achosi i fridwyr cyfrifol roi'r gorau i fridio.” (Kennel Club)
- **“Annog niwtro cyn-aeddfedrwydd (cathod bach)**  
Yn ogystal â rheoleiddio bridio cathod fel y soniwyd yn gynharach, mae angen gwneud mwy i annog perchnogion cathod i'w niwtro er mwyn lleihau problem cathod strae a chathod bach nad oes unrhyw un eu heisiau. Cats Protection sy'n rhedeg y rhaglen niwtro fwyaf yn y byd. Mae'r elusen yn credu bod cael eich cath wedi'i niwtro cyn y gall fridio yn rhan hanfodol o fod yn berchennog cath cyfrifol.

Mae Cats Protection yn annog Llywodraeth Cymru i hyrwyddo niwtro o bedwar mis oed er mwyn atal toreidiau dieisiau. Mae'r Kitten Neutering Database (KiND) yn fenter Cats Protection ac aelodau eraill y Cat Population Control Group (CPCG). Y gofyniad i ymuno â'r gofrestr yw bod practis milfeddygol yn niwtro cathod pan fyddant yn bedwar mis oed

<sup>10</sup> [news.sky.com/story/coronavirus-fears-over-dog-smuggling-as-lockdown-puppy-prices-rise-by-up-to-89-12048005](https://news.sky.com/story/coronavirus-fears-over-dog-smuggling-as-lockdown-puppy-prices-rise-by-up-to-89-12048005)

<sup>11</sup> [www.parliament.uk/business/publications/written-questions-answers-statements/written-question/Commons/2020-06-01/52516/](https://www.parliament.uk/business/publications/written-questions-answers-statements/written-question/Commons/2020-06-01/52516/)

<sup>12</sup> [www.parliament.uk/business/publications/written-questions-answers-statements/written-question/Commons/2020-06-01/52515/](https://www.parliament.uk/business/publications/written-questions-answers-statements/written-question/Commons/2020-06-01/52515/)

<sup>13</sup> [www.inyourarea.co.uk/news/liverpool-mp-warns-on-danger-of-illegal-puppy-trade/amp/](https://www.inyourarea.co.uk/news/liverpool-mp-warns-on-danger-of-illegal-puppy-trade/amp/)

neu'n gynharach (h.y. cyn i gathod gyrraedd oed aeddfedrwydd). Gall aelodau'r cyhoedd ddefnyddio'r gronfa ddata hon i ddod o hyd i filfeddyg a fydd yn niwtro eu cath yn bedwar mis oed neu'n gynharach. <http://www.kind.cats.org.uk/> At hynny, mae Cats Protection ynghyd â'r RSPCA yn cynnal ymgyrch sy'n galluogi unrhyw un ar incwm isel ledled Cymru i gael cymorth ariannol ar gyfer niwtro a gosod microsglodyn.

Mae gan Cats Protection gyfoeth o wybodaeth a chyngor ar gael ar-lein am niwtro cathod cyn-aeddfedrwydd (niwtro cynnar neu niwtro cathod bach) yma:

<https://www.cats.org.uk/what-we-do/neutering>

### **Addysg:**

Mae Cats Protection yn awgrymu y dylid hyrwyddo lles anifeiliaid, gan gynnwys sut i ofalu am gathod yn gyfrifol, i blant drwy'r cwricwlwm cenedlaethol a dysgu mewn ysgolion. Gallai addysg am les anifeiliaid fod yn rhan o'r dysgu a wneir yn yr ysgolion peilot sy'n treialu'r cwricwlwm newydd ar hyn o bryd. Mae gan yr elusen rwydwaith o saith gwirfoddolwr ymroddedig yng Nghymru sy'n mynd i ysgolion ar hyn o bryd i gyflwyno rhaglen addysg lles anifeiliaid am ofal cathod i blant o bob oed. Ceir gwybodaeth sy'n manylu ar yr adnoddau sydd gan yr elusen sy'n benodol i gwricwlwm Cymru yn nhabl cwricwlwm y wlad yma:

<https://education.cats.org.uk/media/1285/curriculum-references.pdf>

Mae ein rhaglen addysg wirfoddol wedi cael gwell cawsom gefnogaeth. Ceir linc i'n hadnoddau addysg ar-lein yma: [<https://education.cats.org.uk/>](https://education.cats.org.uk/)

### **Microsglodynnu:**

Hoffai Cats Protection hefyd fanteisio ar y cyfle hwn i adnewyddu ein galwadau am ficrosglodynnu cathod sy'n eiddo yng Nghymru yn orfodol. Byddai'r elusen yn annog Llywodraeth Cymru i arwain y mater hwn ac i gyhoeddi ymgynghoriad llawn gan y Llywodraeth." (Cats Protection)

- "Yn Lloegr, mae Cyfraith Lucy yn ddiwygiad i reoliadau ar gyfer Gwerthu Anifeiliaid fel Anifeiliaid Anwes (Atodlen 3) o Reoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Cynnwys Anifeiliaid) (Lloegr) 2018.

Er na wnaeth y diwygiad newid nac effeithio ar unrhyw agwedd arall ar y Rheoliadau, hoffem dynnu sylw at ddau ofyniad pwysig sydd wedi'u cynnwys o dan y rheoliadau ar gyfer Cŵn Bridio (Atodlen 6) o 1 Hydref 2018:

1.(1) (a) the licence holder must not offer for sale any dogs not bred by the licence holder.

Mae'r newid hwn yn atal yr arfer o werthu 'hybrid', lle mae bridwyr yn ategu gwerthiannau drwy brynu cŵn bach o ffynonellau allanol eraill i'w gwerthu yn ogystal â'r rhai y maent wedi'u bridio, ac yn aml yn camarwain prynwyr yn y broses.

.

1.(6) a puppy can only be shown to a prospective purchaser if it is together with its biological mother

Mae hyn yn cydnabod pwysigrwydd gallu gweld ci bach yn ei amgylchedd geni ac yn rhyngweithio â'i fam; mae'r cyngor cyson hwn i brynwyr bellach wedi'i ymgorffori yn y gyfraith.

Mae'r gofynion newydd hyn yn gorfodi protocol gwerthu sy'n cyd-fynd â thystiolaeth wyddonol ar gyfer lles da ac sy'n gyson â chyngor sefydledig i ddefnyddwyr. Mae cyfyngu ar yr amgylchiadau lle gall bridwyr werthu cŵn bach yn galluogi mwy o dryloywder ac mae'n hollbwysig i helpu i atal rhai agweddau ar y fasnach trydydd parti. Er mwyn bod yn gyson â chyngor defnyddwyr a sicrhau cydraddoldeb â Lloegr, rydym yn argymhell yn gryf y dylid cynnwys y gofynion hyn neu ofynion tebyg pan gaiff



Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014 eu diweddarau.” (CARIAD)

- “Dylai deddfwriaeth/rheolaethau fod yn debyg yn y rhanbarthau datganoledig a Lloegr er mwyn cynyddu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth y cyhoedd ac er mwyn atal bylchau yn y ddeddfwriaeth/rheolaethau, bydd prynwyr yn teithio'n bell i gael gafael ar fridiau poblogaidd. Mae angen i'r gosb adlewyrchu'r symiau enfawr o arian sy'n cael eu gwneud gan y sector masnachu hwn, ffaith sydd wedi'i chydabod gan Gangiau Troseddol Cyfundrefnol sy'n gynyddol gysylltiedig â'r fasnach cŵn bach. Mae lefel y troseddu bellach wedi codi i lefelau sydd y tu hwnt i adnoddau ymchwilio llawer o ALLau. Mae angen i unrhyw ddeddfwriaeth newydd fod yn ddigon cadarn i gwmpasu'r rhai sydd y tu hwnt i'w chwmpas a pheidio â chreu unrhyw fylchau.” (Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili)
- “Yn ogystal â'r pwyntiau a wnaed gydol yr ymgynghoriad hwn, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ddiwygio'r ddeddfwriaeth ar fridio cŵn a gwella'r broses o'i gweithredu. Mae ein prif bryderon yn ymwneud â diffyg gorfodi, arolygwyr heb gymwysterau, archwiliadau milfeddygol annigonol a sawl pwynt penodol am y rheoliadau eu hunain. Cafodd llawer o'r materion hyn sylw yn yr argymhellion a wnaed gan Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru yn ei adolygiad diweddar o'r ddeddfwriaeth hon.” (Dogs Trust)
- “Ar ôl ymwneud yn uniongyrchol ag achub cŵn a chŵn bach o ffermydd cŵn bach am gynifer o flynyddoedd, mae'r niwed i'r cŵn hyn yn gorfforol ac yn emosiynol yn ddifrifol. Mae'n effeithio ar bob un ohonynt i ryw raddau am weddill eu hoes ond mae'r rhan fwyaf yn mynd ymlaen i gael bywyd gwych ar ôl cael eu mabwysiadu. Yn dilyn gwaharddiad, mae'n hanfodol bod y cŵn nad oes eu hangen mwyach yn cael eu trosglwyddo i ganolfan achub brofiadol i'w hadsefydlu, i gartrefi maeth yn ddelfrydol ac nid amgylchedd llety cŵn. Rhaid cymryd camau i sicrhau nad yw'r cŵn yn cael eu gwerthu i ffermwyr cŵn bach eraill i'w defnyddio ar gyfer bridio eto.” (Cyfeillion yr Anifeiliaid)

## Camau nesaf

Mae'r holl sylwadau ar yr ymgynghoriad, a'r ymatebion i'r ymgynghoriad, wedi'u hadolygu a'u dadansoddi'n llawn. Rydym wedi ystyried yr holl dystiolaeth a gafwyd gan y cyhoedd, sefydliadau lles anifeiliaid a'n rhanddeiliaid a gallwn gadarnhau y bydd gwaharddiad ar werthu cŵn a chathod bach yn fasnachol drwy drydydd parti yn cael ei gyflwyno cyn diwedd y Senedd.

## **Atodiad A**

### **Rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad**

ADCH (Association of Dogs and Cats Home)  
Battersea  
Blue Cross  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili  
CARIAD  
Cats Protection  
CAWWG  
Dog Breeding Reform Group (DBRG)  
Dogs Trust  
Eticat Finishing School for Felines  
Four Paws UK  
Cyfeillion yr Anifeiliaid Cymru  
Hope Rescue  
IFAW  
Kennel Club  
Locke's Dogs Dog Welfare Alliance ICAN International Companion Animal Network  
PDSA  
People for the Ethical Treatment of Animals Foundation  
RSPCA  
Y Sefydliad Trwyddedu  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen  
Safonau Masnach Cymru – Panel Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru  
Clwb Cavashon Cymru